



YMCHWIL GYMDEITHASOL RHIF:  
70/2016  
DYDDIAD CYHOEDDI:  
02/11/2016

# Asesiad o Werthusadwyedd Dechrau'n Deg

## Teitl: Aseiad o Werthusadwyedd Dechrau'n Deg

Awdur(on) / Cwmni

Joseph Wilton, Llywodraeth Cymru  
Hannah Thomas, Llywodraeth Cymru



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ  
Ffôn: 0300 025 2663  
E-bost: [joseph.wilton@wales.gsi.gov.uk](mailto:joseph.wilton@wales.gsi.gov.uk)

## Tabl cynnwys

|    |   |    |
|----|---|----|
| 1. | Crynodeb.....                               | 2  |
| 2. | Cyflwyniad.....                             | 4  |
| 3. | Rhaglen Dechrau'n Deg .....                 | 5  |
| 4. | Rhesymeg Rhaglen.....                       | 8  |
| 5. | Gwerthusadwyedd Dechrau'n Deg.....          | 15 |
| 6. | Dulliau Posibl Presennol .....              | 26 |
| 7. | Dulliau Gweithredu Posibl yn y Dyfodol..... | 33 |
| 8. | Casgliadau .....                            | 36 |

# 1. Crynodeb

- 1.1. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio rhaglen Dechrau'n Deg a'i rhesymeg, sut y gellir ei gwerthuso a beth y gallai fod angen iddi newid er mwyn cynnal gwerthusiadau mwy cadarn a dibynadwy. Rhan o hyn yw'r 'ddamcaniaeth newid' sy'n sail i'r rhaglen, sy'n rhoi manylion am ei chyd-destun, nodau, gweithgareddau ac allbynnau bwriadedig a chanlyniadau disgwylidig yr allbynnau hyn os cânt eu cyflawni. Mae'r asesiad hwn hefyd yn cynnwys rhestr wirio gwerthusadwyedd, sy'n bwrw golwg systematig ar bob agwedd ar y rhaglen er mwyn pennu i ba raddau y gellir ei gwerthuso ac ym mha ffordd. Rhydd y rhestr wirio a gwblheir, ar y cyd â chanfyddiadau gwerthusiadau a gynhaliwyd hyd yn hyn, ddealltwriaeth glir o'r hyn y gellir ei gasglu ar hyn o bryd gyda sicrwydd rhesymol am effeithiau rhaglen Dechrau'n Deg, a'r hyn na ellir ei gasglu. Ar hyn o bryd, mae'r hyn a all fod yn hysbys, neu sydd eisoes yn hysbys, am y rhaglen yn seiliedig ar:
- Y gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg o ran rhai o'r canlyniadau bwriadedig
  - Y newidiadau o ran rhai o ganlyniadau bwriadedig ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg ar ôl i'r ymyriad fod ar waith am sawl blwyddyn
  - Canfyddiadau rhieni a rhanddeiliaid o'r rhaglen, ei hawliau penodol a'u rhwystrau canfyddedig i gymryd rhan ynddi
- 1.2. Er bod y meysydd hyn o ddiddordeb, ac yn gallu darparu gwybodaeth ddefnyddiol, nid ydynt yn rhoi digon o wybodaeth i gynnal asesiad llawn o effeithiau'r rhaglen ar deuluoedd, rhieni a phlant. Hefyd, ni ellir cynnal asesiad o effeithiau anuniongyrchol y rhaglen ar wasanaethau neu deulu ehangach. Yn ddelfrydol, byddai gwybodaeth am y canlynol ar gael:
- Pa blant a theuluoedd sy'n cael hawliau Dechrau'n Deg
  - Pa hawliau y mae'r plant hyn yn eu cael, a faint
  - Nodweddion y plant a'r teuluoedd sy'n cymryd rhan yn Dechrau'n Deg
  - Canlyniadau lefel unigol
    - Rhwng y rhai sy'n cymryd rhan yn Dechrau'n Deg a phob hawl benodol a'r rhai nad ydynt
    - Rhwng y rhai sy'n cymryd rhan i raddau sylweddol a'r rhai sy'n gwneud i raddau is
- 1.3. Y prif ofyniad o ran gwerthusiad mwy cadarn o'r rhaglen yw cael data ar y graddau y mae teuluoedd yn cymryd rhan yn Dechrau'n Deg ar lefel unigol. Petai'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu, yna byddai'n bosibl ystyried effaith pob hawl, a yw canlyniadau'n dibynnu ar y cyfuniadau penodol o hawliau a/neu nodweddion unigol neu aelwyd ac a oes lefel ofynnol neu ddelfrydol o gymryd rhan sydd ei hangen er mwyn cael gwell canlyniadau. Yn ddelfrydol, byddai'r data hyn wedyn yn cael eu paru â data o ffynonellau eraill, fel Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, er mwyn olrhain plant sydd wedi cael cymorth gan Dechrau'n Deg pan maent yn dechrau'r ysgol.
- 1.4. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud yr argymhellion canlynol o ran unrhyw werthusiadau o'r rhaglen ar ei ffurf bresennol yn y dyfodol:

- Cymharu canlyniadau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg gan ddefnyddio cyfatebiaeth ystadegol i nodi'r rheini ym mhob ardal sydd â nodweddion tebyg.
- Parhau i ddefnyddio ymchwil ansoddol er mwyn deall canfyddiadau teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Ystyried opsiynau o ran cysylltu data, gan ddefnyddio data gweinyddol, o bosibl, i nodi canlyniadau lefel unigol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Nodi sampl o deuluoedd/rhieni/plant sydd wedi cael hawliau Dechrau'n Deg a'u holrhain yn arhydol

Y gwelliannau posibl i system fonitro'r rhaglen a allai arwain at werthusiadau mwy cadarn:

- Datblygu systemau newydd ar gyfer casglu data lefel unigol ar hawliau Dechrau'n Deg, a allai gynnwys gwaith monitro ychwanegol a/neu arolwg ar raddfa fawr
- Cysylltu data lefel unigol â data a gesglir gan wasanaethau eraill, fel data addysgol ysgolion
- Nodi lle mae teuluoedd/rhieni/plant yn cael gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol, a chysylltu hyn â'r data lefel unigol o Dechrau'n Deg.

Petai'r gwelliannau hyn yn cael eu gwneud, gallai fod modd cynnal y gweithgareddau canlynol:

- Defnyddio cyfatebiaeth ystadegol, ond ar lefel unigol er mwyn pennu effeithiau hawliau Dechrau'n Deg penodol.
- Dadansoddi'r data lefel unigol er mwyn gweld a yw nodweddion unigol, neu ffactorau cyd-destunol ehangach, yn effeithio ar gymryd rhan ac effaith hawliau.
- Defnyddio data lefel unigol i ddewis samplau ar gyfer ymchwil ansoddol bellach a/neu arolygon, astudiaethau achos ac ymchwil arhydol fanylach.
- Nodi lle mae gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol (nid Dechrau'n Deg) yn cael effaith ychwanegol ar y rheini mewn ardaloedd Dechrau'n Deg

## 2. Cyflwyniad

- 2.1. Nod yr adroddiad hwn yw amlinellu'r materion a'r heriau sy'n codi wrth geisio cynnal gwerthusiad cadarn o raglen Dechrau'n Deg. Cynhaliwyd sawl gwerthusiad o'r rhaglen ers 2009 gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau. Cafodd y cyntaf ei gomisiynu yn 2007 ond, yn hanfodol, cafodd y gwerthusiad hwn ei ddatblygu ar ôl gweithredu'r rhaglen. Mae pob gwerthusiad dilynol wedi sôn am rai o'r problemau ynghlwm wrth werthuso Dechrau'n Deg, ond hyd yn hyn ni chafwyd asesiad cydlynol o werthusadwyedd y rhaglen.
- 2.2. Disgrifir gwerthusadwyedd fel y graddau y gall gweithgaredd neu brosiect gael ei werthuso mewn ffordd ddibynadwy a chredadwy (OECD-DAC 2010; t.21). Bydd unrhyw asesiad o werthusadwyedd rhaglen yn ceisio pennu pa mor llwyddiannus fydd unrhyw werthusiad o ran darparu tystiolaeth ddefnyddiol a dibynadwy.
- 2.3. Mae'r ffordd y caiff yr asesiad hwn ei gynnal yn dibynnu ar ei amseriad mewn perthynas â'r rhaglen neu'r polisi a asesir. Gan fod yr asesiad hwn yn cael ei gynnal sawl blwyddyn ar ôl gweithredu'r rhaglen, y nod yw:
  - a) llywio gwerthusiadau ac ymchwil yn y dyfodol,
  - b) o bosibl llywio dyfodol y strategaeth casglu a gwerthuso data sy'n mynd rhagddi er mwyn gallu cynnal gwerthusiadau mwy effeithiol,
  - c) pennu a yw gwerthusiadau yn y dyfodol yn ymarferol, a sut y gellid eu cynnal.
- 2.4. Lluniodd yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol (DFID) restr wirio a all gael ei defnyddio i sicrhau bod pob agwedd ar raglen yn cael ei hystyried mewn modd systematig. Gellir defnyddio allbwn y rhestr wirio hon i bennu pa mor effeithiol y mae unrhyw werthusiad yn debygol o fod, a nodi'r meysydd lle gall y rhaglen gael ei newid neu ei gwella. Defnyddir y rhestr wirio hon yn adran 4.
- 2.5. Yn gyffredinol, y prif gwestiynau y dylid eu gofyn am unrhyw raglen<sup>1</sup> yw:
  - A yw'n debygol y gwelir unrhyw effeithiau?
  - A yw'n ymarferol mesur effeithiau?
  - A fyddai'n ddefnyddiol asesu effaith?
- 2.6. Er mwyn ateb y cwestiynau hyn, mae angen deall y rhaglen yn llawn. Mae hyn yn cynnwys sut y caiff y rhaglen ei chynnal, ym mha gyd-destun y mae'n gweithredu, nodau ac amcanion y rhaglen a rhesymeg y rhaglen.
- 2.7. Mae Adran 3 yn amlinellu rhaglen Dechrau'n Deg a'r hyn y mae'r canllawiau yn nodi y dylid ei gynnig i bob plentyn cymwys o dan bedair oed sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae Adran 4 yn disgrifio'r rhaglen yn fanylach ac yn archwilio rhesymeg hawliau Dechrau'n Deg. Mae Adran 5 yn defnyddio rhestr wirio DFID er mwyn pennu pa agweddau ar y rhaglen y gellir eu gwerthuso'n effeithiol, a pha agweddau y byddai angen eu newid. Mae Adran 6 yn disgrifio'r dulliau gweithredu a gwerthuso sy'n bosibl ar hyn o bryd. Yna mae Adran 7 yn ystyried pa gamau y gellid eu cymryd petai newidiadau yn cael eu gwneud, a pha fanteision a chostau sy'n gysylltiedig â'r newidiadau hyn.

---

<sup>1</sup> [http://pdf.usaid.gov/pdf\\_docs/PNADN200.pdf](http://pdf.usaid.gov/pdf_docs/PNADN200.pdf)

### 3. Rhaglen Dechrau'n Deg

- 3.1. Dechrau'n Deg yw prif raglen Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan 4 oed. Ei nod yw gwella cyfleoedd mewn bywyd plant sy'n byw yn rhai o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru ac mae'n un o brif flaenoriaethau Agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru. Pedair prif hawl y Rhaglen yw:
- Gofal plant rhan amser o safon am ddim i blant 2-3 oed
    - Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant o safon a gynigir i rieni plant 2-3 oed cymwys am ddwy awr a hanner y dydd, 5 diwrnod yr wythnos, 39 wythnos y flwyddyn. Hefyd, dylid cynnig o leiaf 15 sesiwn gofal plant i'r teulu yn ystod y gwyliau ysgol.
    - Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion er mwyn sicrhau pontio di-dor rhwng y ddau gynnig heb fod unrhyw fylchau mewn darpariaeth.
  - Gwell gwasanaeth Ymweliadau lechyd
    - Rhan allweddol o gynnal y Rhaglen yw ei gwneud yn ofynnol i benodi un Ymwelydd lechyd cyfwerth ag amser llawn fesul 110 o blant o dan 4 oed yn yr ardaloedd targed. Gwneir hyn er mwyn sicrhau y rhoddir cymorth dwys i blant Dechrau'n Deg a'u teuluoedd.
    - Prif rôl Ymwelydd lechyd Dechrau'n Deg yw cefnogi'r teulu yn y cartref, gan asesu'r plentyn a'r teulu (o ran y risg i ieuchyd y plentyn a'i ddatblygiad). Dylai Ymwelwyr lechyd Dechrau'n Deg barhau i asesu'r teuluoedd hynny sy'n peri risg ganolog ac uchel, a gwneud atgyfeiriadau priodol.
  - Cymorth i rieni
    - Rhaid i bob teulu â phlentyn Dechrau'n Deg gael cynnig cymorth rhianta ffurfiol ac anffurfiol o leiaf unwaith y flwyddyn<sup>2</sup>. Gellir gwneud hyn fesul grŵp neu ar lefel un i un yn y cartref drwy gymysgedd o gymorth ffurfiol ac anffurfiol yn dibynnu ar angen.
    - Dylai'r arlwy i rieni fod yn seiliedig ar ddarparu gwasanaethau cynenedigol a chymorth yn y blynyddoedd cynnar hyd at 4 oed. Dylai'r themâu trawsbynciol canlynol ategu hyn:
      - Cymorth ym maes perthnasoedd
      - Ymyrraeth gynnar er mwyn cynorthwyo teuluoedd agored i niwed
      - Rhianta cadarnhaol
      - Damcaniaethau datblygiad plant sy'n seiliedig ar dystiolaeth
  - Cymorth Lleferydd, iaith a Chyfathrebu
    - Dylai fod gan bob teulu mewn ardal Dechrau'n Deg fynediad parhaus at gylch iaith a chwarae priodol. O'r fan hon, gellir targedu cymorth a'i seilio ar asesiad ac atgyfeiriad lle mae tystiolaeth o angen ychwanegol. Mewn rhai awdurdodau lleol, cyflogir therapyddion iaith a lleferydd fel rhan o dîm craidd Dechrau'n Deg.
    - Datblygwyd negeseuon allweddol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi lleferydd, iaith a chyfathrebu plant a dylid eu rhannu â phob rhiant drwy dimau Dechrau'n Deg a'u hymgorffori o fewn holl hawliau'r rhaglen.
- 3.2. Cafodd rhaglen Dechrau'n Deg ei lansio yn 2006/07 ac mae wedi ehangu dros amser. Yn 2012/13, roedd tua 23,500 o blant yn cael cymorth gan Dechrau'n Deg. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad parhaus i gynyddu nifer y plant sy'n rhan o

<sup>2</sup> Mae'r cymorth hwn yn cynnwys y canlynol: Rhaglenni rhianta strwythuredig grŵp seiliedig ar dystiolaeth, cymorth Un i Un, Cymorth Rhianta Grŵp Strwythuredig Anffurfiol a Chymorth Galw Heibio Anffurfiol

Dechrau'n Deg i 36,000 erbyn 2016<sup>3</sup>. Yn 2013-14 dechreuwyd ehangu'r rhaglen i ardaloedd ychwanegol, a barhaodd yn 2014-15. Dengys yr ystadegau diweddaraf fod yr ymrwymiad hwn wedi cael ei gyflawni, gan fod Dechrau'n Deg bellach yn cwmpasu ychydig dros 38,000 o blant, sy'n uwch na'r nifer ddisgwyliedig.

- 3.3. Yn ogystal â'r 4 elfen graidd, gall Awdurdodau Lleol hefyd ddangos rhywfaint o hyblygrwydd o fewn rhaglen Dechrau'n Deg drwy gynnig allgymorth. Mae allgymorth yn galluogi nifer fechan o deuluoedd sy'n byw y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Gan ddefnyddio gwybodaeth leol ac asesu blaenoriaethau, gall Awdurdodau Lleol anelu at sicrhau bod y rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael y gwasanaeth hwn.
- 3.4. Mae'r gwaith o werthuso Dechrau'n Deg yn mynd rhagddo ac yn defnyddio amryw ddulliau, gan gwmpasu arolwg ar raddfa fawr, astudiaethau achos arhydol gyda theuluoedd Dechrau'n Deg ac ymchwil ansoddol fanwl gyda theuluoedd 'angen mawr'<sup>4</sup>. Mae'r gwaith o werthuso rhaglen Dechrau'n Deg hefyd wedi bod yn sail i 'Prosiect Arddangos Cysylltu Data'. Defnyddiodd yr astudiaeth Dechrau'n Deg fel enghraifft o broblemau a buddiannau posibl defnyddio data gweinyddol at ddiben ymchwil. Gan ganolbwyntio'n bennaf ar fesurau iechyd, dangosodd y prosiect fod cyflwyno Dechrau'n Deg i'w weld yn gysylltiedig â gwella amrywiaeth o fesurau canlyniadau<sup>5</sup>.
- 3.5. Mae'r gwaith o werthuso rhaglen Dechrau'n Deg hyd yn hyn wedi cynnwys arolygon gyda theuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd a oedd fwyaf tebyg o ran lefelau amddifadedd ardal, ond nad oeddent yn ardaloedd Dechrau'n Deg eu hunain. Nod hyn oedd pennu effaith y rhaglen, drwy ddefnyddio'r rheini yn yr ardaloedd tebyg mewn rôl wrthffeithiol. Problemau gwneud hyn yw mai yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru y cafodd Dechrau'n Deg ei chyflwyno gyntaf, sydd wrth reswm yn golygu y bydd cymariaethau â phlant y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg yn arwain at gymariaethau â phlant mewn ardaloedd sy'n gymharol lai difreintiedig. Dengys y map isod yr ardaloedd, yn 2016, a oedd yn cael hawliau Dechrau'n Deg.


---

<sup>3</sup> <http://www.assemblywales.org/RN14-005.pdf>

<sup>4</sup> Gweler <http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy> am drosolwg o werthusiadau Dechrau'n Deg.

<sup>5</sup> <http://gov.wales/statistics-and-research/data-linking-demonstration-projects/?lang=cy>





## 4. Rhesymeg Rhaglen

- 4.1. Wrth werthuso polisi neu raglen, rhaid meithrin dealltwriaeth lawn o'r ddamcaniaeth sy'n sail iddo neu iddi. Mae hyn yn golygu darparu diffiniad clir o'r camau a gymerir i gyflwyno'r polisi, ym mha gyd-destun y mae'n gweithredu, pa adnoddau sydd eu hangen, beth a wneir mewn gwirionedd fel rhan o'r polisi a pha newidiadau a ddisgwylir o ganlyniad. Un ffordd o ddatblygu a disgrifio'r fath ddealltwriaeth yw drwy fodel rhesymeg.
- 4.2. Yn ôl 'The Magenta Book' '*Logic models describe the relationship between an intervention's inputs, activities, outputs, outcomes, and impacts*' (tud. 22).
- Mewnbynau yw'r adnoddau mesuradwy sydd eu hangen i gyflwyno'r polisi/rhaglen. Gall hyn gynnwys cyllid, staff, adeiladau neu ddeunyddiau ffisegol, fel llyfrau neu daflenni.
  - Gweithgareddau yw'r tasgau gwirioneddol a gyflawnir wrth gyflwyno'r polisi. Er enghraifft, gallai gynnwys darparu cyrsiau hyfforddi, dosbarthu gwybodaeth neu adeiladu ffordd.
  - Allbynnau yw canlyniadau uniongyrchol y gweithgareddau a'r hyn a wna'r derbynnydd mewn ymateb i'r gweithgareddau. Felly, o ran darparu cwrs hyfforddi, gallai'r allbwn fod yn gyfystyr â phobl yn mynd ar y cwrs.
  - Mae canlyniadau'n deillio o'r allbynnau a byddant yn digwydd rywbryd ar ôl y gweithgaredd. Gan barhau i ddefnyddio'r enghraifft o gwrs hyfforddi, y canlyniad delfrydol fyddai cynyddu sgiliau neu wybodaeth y derbynwyr.
  - Effeithiau yw gwaddol ehangach hirdymor polisi/rhaglen, ac fe'u hystyrir yn nod delfrydol fel arfer. Yn aml cânt eu hystyried ar lefel poblogaeth ac felly byddent yn disgrifio sut y gall gweithgaredd arwain at newidiadau parhaol o fewn y grŵp sy'n rhan o'r gweithgaredd. Ar lefel genedlaethol, gallai olygu incymau uwch neu well iechyd.
- 4.3. Gall model rhesymeg hefyd gael ei ystyried yn ffordd o gyfleu damcaniaeth newid. Mae damcaniaeth newid yn ceisio archwilio'r tybiaethau ynghylch rhaglen ac ar ba sail y mae'n honni y gall sicrhau'r canlyniadau a'r effeithiau a nodir yn y model rhesymeg<sup>6</sup>. Gellir ei hystyried yn fras yn arfarniad critigol o fodel rhesymeg, lle archwilir y cysylltiadau rhwng y mewnbynnau, gweithgareddau, allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a lle caiff y tybiaethau eu nodi a'u herio.
- 4.4. Yn gynhenid ymhob polisi cymdeithasol mae tybiaethau am y ffordd y bydd y polisi yn ymgysylltu â'r derbynwyr targed. Gall y rhain amrywio o faint y boblogaeth dderbyn ddisgwylidig i sut y bydd y gweithgareddau'n effeithio ar ganlyniadau'r derbynwyr. Y tybiaethau hyn a brofir wrth werthuso polisi.
- 4.5. Yn ogystal â'r tybiaethau sylfaenol, mae damcaniaeth newid hefyd yn amlinellu'r cyd-destun y mae'r polisi neu'r rhaglen yn gweithredu ynddo. Mae hyn yn rhan hynod bwysig o unrhyw werthusiad, oherwydd gall y cyd-destun gael dylanwad mawr ar effaith ymyriad. Yn yr achos hwn, mae'r cyd-destun yn cyfeirio at systemau gwleidyddol, cymdeithasol ac economaidd sydd ar waith, sefyllfa'r buddiolwyr targed cyn gweithredu (h.y. y llinell sylfaen) a phwy sy'n ymwneud â gweithredu'r rhaglen a'r broblem yr eir i'r afael â hi. Dylai hefyd gynnwys y dull gweithredu, sy'n rhoi arwydd o gywirdeb y rhaglen.

<sup>6</sup> [http://r4d.dfid.gov.uk/pdf/outputs/mis\\_spc/DFID\\_ToC\\_Review\\_VogelV7.pdf](http://r4d.dfid.gov.uk/pdf/outputs/mis_spc/DFID_ToC_Review_VogelV7.pdf)

- 4.6. Cyflwynodd Adroddiad Effaith 2013<sup>7</sup> fodel ar gyfer Dechrau'n Deg a wnaeth gyfleu rhesymeg y rhaglen, ei chyd-destun, tybiaethau newydd a'r amryw elfennau sydd eu hangen ar gyfer model rhesymeg. Er i hyn gynnig darlun defnyddiol o bwyntiau allweddol y rhaglen, nid yw'n edrych yn fanwl ar yr holl elfennau amrywiol. Mae rhaglen Dechrau'n Deg yn hynod gymhleth, gyda llawer o wasanaethau a hawliau'n rhyngweithio, na chawsant eu dangos yn llawn ym model 2013. Felly, lluniwyd model ehangach wedi'i ddiweddarau.
- 4.7. Mae'r model newydd hwn yn ceisio cyfrif am y cyd-destun y cafodd y rhaglen ei datblygu a'i gweithredu ynddo, prif nodau ac amcanion y rhaglen a sut y caiff ei chyflwyno. Mae'r model hwn yn ceisio darparu model rhesymeg lle caiff rolau'r pedair prif hawl eu cyfleu'n glir. Hefyd, ystyrir y prif broblemau a heriau a all gael eu hwynebu ar bob lefel o'r model. Mae'r rhain yn ymdrech i archwilio'r tybiaethau, a'r potensial i'r tybiaethau hyn fod yn wir neu fod ar sail wan.
- 4.8. Er yr ymdrechwyd i sicrhau bod y model hwn mor fanwl a chynhwysfawr â phosibl, mae angen cydnabod bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n wahanol ymhob Awdurdod Lleol<sup>8</sup>. Felly, mae'r model hwn yn cynrychioli cyflwyno Dechrau'n Deg yn genedlaethol, ac efallai na fydd yn gymwys i bob ardal leol.
- 4.9. Yn ogystal ag amrywiadau lleol, gall y ffordd y cyflwynir y rhaglen newid dros amser. Er enghraifft, cafodd yr hawl lleferydd, iaith a chyfathrebu ei hailddylunio ar raddfa fawr o ganlyniad i werthusiad 2013. Felly, efallai na fydd y model hwn yn berthnasol nac yn gywir os gwneir newidiadau pellach.

---

<sup>7</sup> <http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf>

<sup>8</sup> Er bod y rhaglen yn rhagnodi'r hawliau i'w darparu, mae'r gwahaniaethau o ran pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol, lefelau staffio a nodweddion derbynwyr yn arwain at amrywiad ymhob Awdurdod Lleol.

## Cyd-destun

Canolbwyntiodd blaenoriaethau gwleidyddol ar adeg datblygu'r rhaglen ar gamau ataliol ac ymyrraeth gynnar, er mwyn helpu plant i ddatblygu a chefnogi teuluoedd. Newidiodd blaenoriaethau gwleidyddol yn ystod oes y rhaglen, gyda phynciau fel addysg, iechyd a thlodi yn dod yn fwy ac yn llai pwysig. Cafodd hyn sgil-ffaith ar gyflwyno'r rhaglen. Fodd bynnag, nid yw ffocws y rhaglen na'r ffordd y caiff ei chyflwyno wedi newid ers dechrau ei hehangu yn 2012.

Bu trechu tlodi plant yn un o nodau allweddol Llywodraeth Cymru ers sawl blwyddyn, a chafodd y Strategaeth Tlodi Plant gyntaf yng Nghymru ei chyhoeddi yn 2005. Un o nodau'r strategaeth hon oedd dileu tlodi plant erbyn 2020. Yn 2005 ystyriwyd bod bron traean o blant yng Nghymru yn byw ar aelwydydd cymharol dlawd. Mae'r gwerthusiad o Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn disgrifio sut mae effeithiau pellgyrhaeddol tlodi ar ddatblygiad plant wedi cael eu cydnabod ers peth amser, ac felly cymerwyd camau i atal tlodi plant ac ymchwilio iddo. Ystyriwyd bod ymyriadau blynyddoedd cynnar yn werth da iawn am arian o bosibl am fod y buddiannau i'w gweld am amser hir ar ôl yr ymyriad, a gallant arwain at atal bylchau mewn cyrhaeddiad a chanlyniadau negyddol yn y dyfodol.

Gall llawer o ffactorau ddylanwadu ar ddatblygiad plentyn, o'r mwyaf uniongyrchol (h.y. teulu), i'r ardal leol (e.e. cymdogaeth) i rymoedd strwythurol ehangach (e.e. y system ysgol, system les). Gall polisi sy'n anelu at ymdrin â'r holl ffactorau hyn fod yn fwy effeithiol nag un sy'n targedu ffactorau unigol. Gall llawer gael eu dylanwadu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y DU, mae angen i rai gael eu cefnogi gan Lywodraeth y DU (e.e. budd-daliadau, trethi) tra bod eraill yn is-genedlaethol (e.e. Awdurdodau Lleol), gweler [Strategaeth Tlodi Plant Cymru](#).

## Nodau ac Amcanion Dechrau'n Deg

Nod cyffredinol Dechrau'n Deg yw lleihau effaith amddifadedd ar blant drwy fuddsoddi yn natblygiad y blynyddoedd cynnar  
*'gwneud gwahaniaeth pendant i gyfleoedd bywyd plant o dan 4 oed yn yr ardaloedd lle mae'n bodoli'*

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/120913fsguidancecy.pdf>, tud. 3

Tra bod Canllawiau Strategol Dechrau'n Deg yn glir iawn am sut y dylid cyflwyno'r rhaglen, ni cheir unrhyw amcanion penodol na phroffadwy. Fodd bynnag, mae'r amryw werthusiadau hyd yn hyn wedi tynnu sylw at sawl amcan posibl ar gyfer y rhaglen. Gwahaniaethwyd rhwng yr amcanion hyn o ran y rhai sydd ar gyfer y plant eu hunain, y rhieni ac ar gyfer darparu'r gwasanaeth.

### Amcanion Plant

- Datblygu iaith
- Datblygu gwybyddol
- Datblygu cymdeithasol ac emosiynol
- Iechyd corfforol
- Nodi anghenion lefel uchel yn gynnar

### Amcanion Rhieni

- Cymorth i rieni
- Ymddygiadau rhianta cadarnhaol
- Hyder rhianta

### Amcanion Ehangach

- Gweithlu ehangach
- Achub ar hawliau craidd
- Defnydd o wasanaethau ehangach
- Cydweithredu proffesiynol
- Seilwaith

## Cyflwyno Dechrau'n Deg

Cafodd Dechrau'n Deg ei datblygu er mwyn rhoi cymorth wedi'i dargedu i deuluoedd â phlant o dan 4 oed yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Cafodd y targedu hwn ei seilio ar y sgorau a ddeilliodd o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ond hefyd ar ddata gan Gyllid a Thollau EM a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Gweithredwyd y rhaglen yn swyddogol o 2006/07 ac yna fe'i hehangwyd yn 2012/13. Nod yr ehangu hwn oedd dyblu nifer y plant a oedd yn gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen o'r 18,000 cychwynol i 36,000 erbyn 2016.

Hefyd, cyflwynwyd elfen allgymorth yn 2012/13, sy'n cyfrif am tua 2.5 y cant o'r cynnydd yn nyranid blynyddol pob Awdurdod Lleol o gyllid Dechrau'n Deg ar sail gronol.

## Mewnbynnau

Cyllid blynyddol o £76m i Awdurdodau Lleol – wedi'i ddsbarthu yn ôl poblogaeth – tua £2,100 fesul plentyn  
Nid yw hyn yn cynnwys costau cyfalaf, fel y rhai a ddefnyddir i adeiladu lleoliadau newydd a ffurflenni a hyfforddiant asesu SoGS.  
Caiff Awdurdodau Lleol ryddid i ddsbarthu eu cyllid rhwng y pedair hawl

### Iechyd

- Canllawiau ar gyfer rhaglen iechyd craidd
- Cymarebau ymwelwyr iechyd
  - Un fesul 110 o blant
- Asesiad SoGS
  - Ffurflenni, hyfforddiant
- Gwasanaethau arbenigol
  - Gweithwyr iechyd arbenigol (e.e. seicolegwyr)
  - Mwy o hyblygrwydd mewn ardal leol wrth benderfynu ar gymysgedd sgiliau gweithlu

### Gofal plant

- Safonau uwch na'r safon ofynnol
  - Cymarebau is
  - Cymwysterau uwch gan gynnwys o leiaf un aelod o staff graddedig
  - Athro cynghorol
- Cyllid cyfalaf
- Angen cofrestru ag AGGCC yn llawn

### Lleferydd, iaith a chyfathrebu (LIIC)

- Negeseuon allweddol LIIC
  - Disgwyliad i bob aelod o staff CS ddefnyddio'r negeseuon hyn o'r cyfnod cynnedigol ymlaen (e.e. staff gofal plant, ymwelwyr iechyd)
- Canllawiau seiliedig ar dystiolaeth
- Bagiau Llyfrau Dechrau'n Deg
- Posteri ar gyfer lleoliadau gofal plant
- Pecynnau Rhieni "Dysgu Siarad"
- Olwynion Datblygu Lleferydd ac Iaith i ymwelwyr iechyd

### Rhianta

- Canllawiau ar gyrsiau rhianta cymeradwy seiliedig ar dystiolaeth a chysiau anffurfiol
- Ymwelwyr iechyd ac ymarferwyr rhianta Dechrau'n Deg

**Problemau a Heriau:** Cymarebau ymwelwyr iechyd ddim yn cael eu cyflawni ymhob ardal, gwasanaethau arbenigol yn amrywio yn ôl ardal ac yn gallu dibynnu ar argaeledd lleol, angen a chyflenwad staff, methu dod o hyd i staff gofal plant digon cymwysedig bob amser, cyflwyno negeseuon allweddol LIIC yn 2015, adnoddau LIIC yn newid yn ystod oes Dechrau'n Deg, rhaglenni rhianta yn ôl disgrisiwn yr ardal leol o fewn disgwyliadau canllawiau

## Gweithgareddau

Rhaglen ymyrraeth graidd – dylai fod yn ofynnol  
Awdurdodau Lleol yn gallu darparu gweithgareddau ychwanegol ar sail anghenion teulu ac ardal  
Rhywfaint o gydweithredu â Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf

### Iechyd

- Aseidiadau SoGS
  - Plant 2 a 3 oed yn cael eu hasesu
- Cysylltiadau ymwelwyr iechyd
  - 13 o gysylltiadau craidd a rhai ychwanegol pan fo angen
  - Orlhain datblygiadol
- Hyfforddiant ymwelwyr iechyd
  - Yn benodol i Dechrau'n Deg (e.e. yn SoGS)
  - Nodi anghenion a risgiau
- Darparu cyrsiau sy'n gysylltiedig ag iechyd
  - E.e. coginio iach, bwydo ar y fron
- Hybu dewisiadau iach
  - E.e. imiwneiddio, ymweliadau deintyddol

### Gofal plant

- 2.5 awr/diwrnod yr wythnos (12.5 awr/wythnos) am 39 wythnos
  - Ar gyfer plant 2 a 3 oed
  - Yn ychwanegol at Addysg Blynyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen
- 15 o sesiynau ar gael yn ystod y gwyliau ysgol
- Staff newydd yn meddu ar gymwysterau uwch na'r safon ofynnol
- Hyfforddiant ychwanegol (e.e. yn SoGS, LIIC)
- Adeiladu lleoliadau newydd
- Cymorth pontio ysgol
  - Trosglwyddo'r cyfnodolyn datblygiadol
  - Cyflwyno plentyn i leoliad newydd

### Lleferydd, iaith a chyfathrebu (LIIC)

- Dosbarthu adnoddau LIIC (e.e. Bagiau Llyfrau Dechrau'n Deg) i rieni a staff
- Negeseuon allweddol LIIC wedi'u hymgorffori ymhob hawl
- Hyfforddiant ar negeseuon allweddol
  - Mae gan bob ardal ei dull gweithredu ei hun
  - Staff gofal plant, ymwelwyr iechyd ac ati
- Grwpiau iaith a chwarae
  - Anogaeth gan ymwelwyr iechyd
- Ymwelwyr iechyd yn rhoi negeseuon allweddol LIIC i deuluoedd
  - Gwella gallu/hyder rhieni
  - Monitro datblygiad plant
- Cyfeiriadau at Therapyddion iaith a Lleferydd lle bo angen

### Rhianta

Yn dechrau ar yr adeg gynenedigol:

- Cyrsiau rhianta
  - Ardaloedd yn darparu cyrsiau cymeradwy seiliedig ar dystiolaeth
- Cymorth rhianta anffurfiol
  - Yn cynnwys cysylltiadau ymwelwyr iechyd, sesiynau grŵp/un i un
  - Amrywio yn ôl ardal leol
  - Anelu at ddiwallu anghenion penodol teuluoedd
  - Cymorth ymarferol ac emosiynol
  - Anelu at fod yn gyfleus i rieni
- Grwpiau rhianta
  - Cymorth rhwng cymheiriaid

**Problemau a Heriau:** Gall ymwelwyr iechyd ddarparu cynifer o gysylltiadau ag sydd eu hangen ar y teulu yn eu barn nhw, cysylltiadau ymwelwyr iechyd yn cael eu cyfyngu gan lwyth achosion, efallai nad yw'r cymorth sydd ar gael yn diwallu anghenion gwirioneddol y teulu (e.e. sgiliau cyflogaeth, tlodi), defnydd o ofal plant ddim yn 100%, recriwtio staff yn dibynnu ar argaeledd staff lleol, nodwyd bod cysondeb gweithgareddau LIIC ar draws ardaloedd yn broblem i Dechrau'n Deg mewn gwerthusiadau blaenorol, mwy o bwyslais ar LIIC a gyflwynwyd yn 2015.



## Allbynnau

Mae'n rhaid i ardaloedd lleol gyflwyno data at ddibenion monitro i Lywodraeth Cymru sy'n rhoi gwybodaeth lefel ardal ar gyfer llawer o'r allbynnau hyn  
Allbynnau'n amrywio yn ôl ardal leol

Nid oes data lefel unigol ar gael ar gyfer yr allbynnau hyn

Mae llawer o'r allbynnau hyn yn gofyn am fewnbnw staff mewn perthynas â hawliau, gwasanaethau ychwanegol a/neu rieni

### Iechyd

- Plant yn cael eu hasesu
- Plant ag oedi datblygiadol yn cael eu hadnabod
  - Eu nodi ac ymyrryd yn gynnar
  - Atgyfeiriadau i arbenigwyr
- Ymwelwyr iechyd yn darparu cymorth arbenigol
- Datblygiad plant yn cael ei olrhain
- Ffactorau risg y teulu yn cael eu nodi
  - Cymorth yn cael ei roi
- Plant yn cael eu himiwneiddio
- Dilyn cyrsiau bwydo ar y fron
- Rhieni yn cael cyngor

### Gofal plant

- Plant yn derbyn gofal plant
  - Holi teuluoedd am absenoldebau
- Recriwtio staff o safon
- Defnyddio lleoliadau newydd
- Arolygu lleoliadau
- Gwneud gwaith pontio
  - Problemau datblygiadol yn cael eu rhannu â lleoliad newydd
- Plant yn cael cymorth datblygiadol
  - Targedu plant â phroblemau a nodwyd

### Lleferydd, iaith a chyfathrebu (LIIC)

- Cynnal ac annog gweithgareddau LIIC
- Adnoddau ar gael
- Staff yn cael hyfforddiant LIIC
- Mynychu grwpiau darllen
- Dilyn cyrsiau iaith a chwarae
- Defnyddio gweithgareddau LIIC mewn lleoliadau gofal plant

### Rhianta

- Dilyn cyrsiau rhianta
- Mynychu grwpiau rhianta
- Teuluoedd ag anghenion lefel uchel yn cael cymorth ac iddo ffocws
- Nodi anghenion rhianta

**Problemau a Heriau:** Asesiadau SoGS yn amrywio ar draws ardaloedd lleol a rhwng aseswyr (gallant gael eu cynnal gan unrhyw un sydd wedi'i hyfforddi gan gynnwys staff gofal plant), ymyrraeth gynnar yn dibynnu ar y gwasanaethau arbenigol sydd ar gael, lefelau presenoldeb ar gyrsiau yn anhysbys, newid i ddietau teulu yn anhysbys, ymweliadau deintyddol yn anhysbys, defnydd o ofal plant yn ddewisol, lleoliadau newydd mewn rhai ardaloedd Dechrau'n Deg yn unig, defnydd o adnoddau LIIC yn anhysbys, grwpiau darllen yn dibynnu ar gymorth ardal leol, aneglur a yw pob rhiant ag anghenion lefel uchel yn cael y cymorth angenrheidiol.

## Canlyniadau

(Blwyddyn neu lai ar ôl gweithgaredd)

### Iechyd

- Plant ag oedi datblygiadol, a'u rhieni, yn cael cymorth arbenigol naill ai i leihau effaith cyflyrau hirdymor neu eu hatal
- Amodau bywyd yn y cartref ac iechyd cyffredinol plant yn gwella
- Dietau teuluoedd yn gwella
- Llai o blant ag anawsterau ymddygiadol cymdeithasol neu emosïynol

### Gofal plant

- Plant yn dod yn gyfarwydd â mynychu lleoliad gofal ffurfiol
- Plant yn rhyngweithio â phlant eraill o'r un oed
- Datblygiad gwybyddol a chymdeithasol plant yn gwella
- Teuluoedd yn cymryd rhan yn y broses dysgu a datblygu
- Llai o anghydraddoldeb rhwng ardaloedd o ran cyfleoedd dysgu

### Lleferydd, iaith a chyfathrebu (LIIC)

- Rhieni yn deall pwysigrwydd negeseuon allweddol LIIC
- Rhieni yn ymwneud â dysgu eu plant ac yn defnyddio gweithgareddau LIIC
- Sgiliau LIIC plant yn datblygu ac yn gwella
- Plant yn meithrin y gallu i ddysgu drwy chwarae ac felly yn mwynhau'r broses o ddysgu
- Gwell amgylchedd dysgu gartref

### Rhianta

- Rhieni yn dewis cael cymorth cynenedigol
- Llai o ymddygiadau peryglus ar aelwydydd (e.e. smygu)
- Rhieni yn deall yn well beth yw eu rôl o ran dysgu a datblygiad eu plant
- Bywyd yn y cartref plant yn fwy cefnogol ac ysgogol

**Problemau a Heriau:** Peth oedi datblygiadol yn cael ei nodi gan SoGS - ymyrraeth arbenigol gan y gwasanaeth iechyd ehangach ac ymgysylltiad rhieni, ni all rhai cyflyrau gael eu nodi cyn 4 oed, efallai nad oes cymorth arbenigol ar gael, dim modd i rai agweddau ar iechyd plant gael eu trin drwy addysg ac anogaeth (e.e. tiodi tanwydd), efallai na chaiff gofal plant unrhyw effaith fuddiol ar ddatblygiad, efallai na fydd rhieni yn ymwneud â datblygiad plant, efallai na fydd darpariaeth Dechrau'n Deg yn ddigon i drechu anghydraddoldebau, datblygiad LIIC yn dibynnu ar ymgysylltiad rhieni, efallai na fydd grwpiau rhianta yn ddigon i newid ymddygiad, efallai na fydd y grwpiau sy'n wynebu'r risg fwyaf yn barod i ymgysylltu.

## Effaith

(Rhwng blwyddyn a phum mlynedd ar ôl gweithgaredd)

### Plentyn

- Canlyniadau addysgol plant cynradd mewn ardaloedd difreintiedig yn gwella
- Mwy o blant yn cyrraedd y lefelau llythrennedd disgwylidig drwy'r ysgol gyfan
- Gwell ymddygiad yn yr ysgol
- Mwy o gyfleoedd datblygu
- Llai o blant yn cael eu gweld gan wasanaethau meddygol (meddygon teulu, ysbyty ac ati)

### Rhieni/Teulu

- Llai o deuluoedd angen ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol
- Llai o rieni angen cymorth ychwanegol
- Llai o rieni yn cael eu hatgyfeirio am broblemau corfforol neu feddyliol
- Mwy o rieni yn hyderus yn eu gallu i fagu plant

### Gwasanaeth

- Mwy o weithwyr gofal plant cymwysedig
- Mwy o ymgysylltu rhwng cymorth y blynyddoedd cynnar, ysgolion ac ymyriadau cymdeithasol eraill (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf)
- Cymorth ychwanegol mewn ysgolion yn costio llai
- Gwella seilwaith yn barhaol



## 5. Gwerthusadwyedd Dechrau'n Deg

- 5.1. Un o brif agweddau'r asesiad o werthusadwyedd yw'r rhestr wirio a luniwyd gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol. Daw'r rhestr wirio o dudalennau 19-23 o'r adroddiad canlynol: Davies, R., 2013. *Planning Evaluability Assessments: A Synthesis of the Literature with Recommendations*. Adroddiad astudiaeth wedi'i chomisiynu gan yr Adran dros Ddatblygu Rhyngwladol.
- 5.2. Mae'r asesiad o werthusadwyedd, ar ffurf y rhestr wirio, yn nodi'r dimensiynau canlynol o ran gwerthusadwyedd:
- Gwerthusadwyedd "mewn egwyddor", o ystyried natur damcaniaeth newid y prosiect
  - Gwerthusadwyedd "ar waith", o ystyried argaeledd data perthnasol a gallu systemau rheoli i'w darparu
  - Defnyddioldeb ac ymarferoldeb gwerthusiad, o ystyried barn ac argaeledd rhanddeiliaid perthnasol
- 5.3. Mae'r rhestr wirio yn anelu at ddarparu dull atebol o sicrhau bod yr holl faterion perthnasol yn cael eu cwmpasu drwy broses systematig. Mae allbynnau asesu disgwylidig y rhestr wirio hon yn ymwneud ag ymarferoldeb a defnyddioldeb gwerthusiad yn ogystal â gwerthusadwyedd y prosiect. Hefyd, bydd ail gyfres o allbynnau yn argymhellion ynghylch sut i wneud y prosiect yn fwy gwerthusadwy.
- 5.4. Dengys Tabl 1 restr wirio gwerthusadwyedd lawn rhaglen Dechrau'n Deg. Wrth gwblhau'r asesiad hwn o werthusadwyedd, gobeithir y bydd yn llywio gwerthusiadau ac ymchwil yn y dyfodol ac o bosibl yn awgrymu sut y gallai'r rhaglen newid er mwyn cynnal gwerthusiadau mwy effeithiol.

| Tabl 1. Rhestr wirio gwerthusadwyedd lawn rhaglen Dechrau'n Deg  |   |   |
|--|---|---|
| 1. <b>Dylunio Prosiect</b> (fel y disgrifir mewn Damcaniaeth Newid, Fframwaith Rhesymegol neu naratif) |   | <b>Nodiadau – (cadarnhaol a <i>negyddol</i>)</b>  |
| <b>Eglurder?</b>   | A gaiff yr effaith a'r canlyniadau hirdymor eu nodi'n glir ac a gaiff y camau arfaethedig tuag at eu cyflawni eu diffinio'n glir? | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Bu'r prif nodau a phrif ffocws yr un peth: datblygiad a lles plant mewn ardaloedd difreintiedig</li> <li>• Er y bu peth amrywiad o ran y ffordd y mae'r gweithgareddau'n gweithredu, mae'r prif elfennau a dull o weithredu yr un peth</li> </ul>  |
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae nodau eilaidd yr ymyriad wedi newid y ffocws a'r flaenoriaeth, fel dangos yr effaith ar gynnwys rhieni</i></li> <li>• <i>Tra bo rhai dangosyddion wedi adrodd ar lefel gronol, ni chaiff effeithiau bwriadedig y rhaglen eu diffinio'n glir iawn, h.y. o ran canlyniadau neu dargedau penodol.</i></li> </ul> |

|                           |  |  |
|---------------------------|--|--|
| <p><b>Perthnasol?</b></p> | <p>A yw amcan y prosiect yn amlwg yn berthnasol i anghenion y grŵp targed, fel y nodwyd gan unrhyw fath o ddadansoddiad sefyllfaol, astudiaeth sylfaenol, neu dystiolaeth a thrafodaeth arall? A nodwyd y buddiannwyr bwriadedig yn glir?</p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gallu nodi'r buddiannwyr am eu bod yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg. Caiff ardaloedd eu diffinio a'u dethol yn glir gan ddefnyddio data dibynadwy</li> <li>• Darpariaeth safonol</li> <li>• Ymyriadau pwrpasol ar gyfer pob teulu</li> </ul> <hr/> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Methu pennu'r hawliau a ddefnyddir gan fuddiannwyr ar lefel unigol</i></li> <li>• <i>Diffinnir y grŵp targed fel un sy'n 'wynebu risg', yn hytrach na bod yn bendant angen yr ymyriad arno</i></li> <li>• <i>Mae Dechrau'n Deg yn cynnwys elfen allgymorth fechan, sy'n rhoi hawliau Dechrau'n Deg i'r rheini y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg</i></li> <li>• <i>Nid oes modd gwneud cymhariaeth glir rhwng y gwasanaethau sydd ar gael mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg. Gall fod rhai o hawliau Dechrau'n Deg ar gael mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg, er drwy ddarparuwyd eraill.</i></li> </ul>  |
| <p><b>Credadwy?</b></p>   | <p>A oes cadwyn achosol barhaus, sy'n cysylltu'r asiantaeth ymyrryd â'r effaith olaf o bryder?</p> <p>A yw canlyniad y prosiect yn debygol o gael ei gyflawni, o ystyried yr ymyriadau a gynlluniwyd, yn ystod oes y prosiect? A oes dystiolaeth o rywle arall y gellid ei gyflawni?</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ymyrraeth ar sail dystiolaeth gadarn <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Rhesymeg rhaglen a ategir gan werthusiadau o fentrau blaenorol, fel Cychwyn Cadarn<sup>9</sup></li> <li>◦ Hawliau plant yn seiliedig ar dystiolaeth arhydol gref, fel yr hyn a gafwyd drwy'r astudiaeth o ddarpariaeth effeithiol addysg cyn ysgol<sup>10</sup></li> <li>◦ Dim ond os oes dystiolaeth ategol gadarn y caiff cyrsiau rhianta ffurfiol eu hargymell</li> <li>◦ Gweithgareddau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn fel yr argymhellir gan Therapyddion Iaith a Lleferydd cymwysedig.</li> </ul> </li> <li>• Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd ar gam datblygu'r rhaglen yn awgrymu bod darparu mwy o gymorth, gwella mynediad neu wasanaethau am ddim i deuluoedd yn debygol o arwain at effeithiau cadarnhaol</li> </ul> <hr/> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae'r prosiect yn para o enedigaeth y plentyn i'w ben-blwydd yn 4 oed. Mae rhai effeithiau yn debygol o gael eu gweld y tu hwnt i'r cyfnod hwn, er enghraifft ym mlynnyddoedd ysgol y plentyn ac efallai fel oedolyn</i></li> <li>• <i>Tra bod y dystiolaeth o blaid gweithgareddau ac</i></li> </ul> |

<sup>9</sup> [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/182026/DFE-RR067.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182026/DFE-RR067.pdf)

<sup>10</sup> <http://eppe.ioe.ac.uk/eppe/eppepdfs/bera1.pdf> HYPERLINK

|                                   |  |   |
|-----------------------------------|--|---|
|                                   |  | <p><i>elfennau unigol Dechrau'n Deg, ni wyddys beth yw effaith rhyngweithio hawliau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae rhywfaint o dystiolaeth sylfaenol y rhaglen yn dod o wledydd eraill (UDA yn bennaf). Felly, efallai na ellir ei chyffredinoli mewn cyd-destun Cymreig.</i></li> </ul>   |
| <b>Dilysrwydd a dibynadwyedd?</b> | A oes dangosyddion <i>dilys</i> ar gyfer pob digwyddiad disgwylidig (allbwn, canlyniad ac effaith)? H.y. a gofnodir yr hyn y disgwylir iddo ddigwydd? A ydynt yn ddangosyddion <i>dibynadwy</i> ? H.y. a wnaiff arsylwyr gwahanol weld yr un peth? | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae peth data yn bodoli o ffynonellau gweinyddol a gesglir ar hyn o bryd, fel sgorau asesu addysgol, absenoldebau ysgol, a chyfraddau imiwneiddio a bwydo ar y fron</li> <li>Gallu cymharu ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg, ac yn erbyn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn gweithredu'r rhaglen</li> </ul>   |
|                                   |  | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Methu mesur allbwn (h.y. defnydd o hawliau) ar lefel unigol, ac felly methu pennu a allai unrhyw newid gael ei briodoli'n benodol i hawliau Dechrau'n Deg.</i></li> <li><i>Ni nodwyd amcanion Dechrau'n Deg ar y cam gweithredu, ac felly ni nodwyd canlyniadau ac effaith bosibl.</i></li> <li><i>Codir cwestiwn ynghylch cwmpas a dibynadwyedd y ffynonellau data gweinyddol</i></li> </ul>             |
| <b>Profadwy?</b>                  | A yw'n bosibl nodi pa gysylltiadau yn y gadwyn achosol a fydd fwyaf pwysig i lwyddiant y prosiect, ac felly a ddylai fod yn ffocws i gwestiynau gwerthuso?   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Dylai pob teulu sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg gael hawliau craidd, fel ymwelwyr ieuchyd â llai o lwyth achos, cymorth rhianta, LIIC a gofal plant</li> </ul>   |
|                                   |  | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae Dechrau'n Deg yn mabwysiadu dull gweithredu cyfannol teulu cyfan ac felly mae rhai o'r ymyriadau a gyflawnir yn dibynnu ar angen teulu. Mae hyn yn golygu bod y ddarpariaeth yn wahanol i bob teulu sy'n cael hawliau</i></li> <li><i>Yn sgil diffyg data lefel unigol, ni ellir profi'r cysylltiad rhwng hawliau'r rheini mewn ardaloedd Dechrau'n Deg</i></li> </ul>                                |
| <b>Cyd-destunol?</b>              | A nodwyd tybiaethau am rolau actorion eraill y tu allan i'r prosiect yn benodol? (galluogwyr a chyfyngwyr) A oes cynlluniau credadwy i fonitro'r rhain mewn ffordd ymarferol?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am ddyrannu cyllid i hawliau Dechrau'n Deg, a'i rôl wrth gyflwyno'r rhaglen wedi'i deall yn glir</li> </ul>   |
|                                   |  | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae'r ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn cyflwyno Dechrau'n Deg yn amrywio yn dibynnu ar ffactorau lleol, lefelau galw, gwasanaethau arbenigol sydd ar gael ac ati ac mae'n parhau i newid dros amser. Ar hyn o bryd nid oes ffordd gynhwysfawr o gasglu data ar y gwahaniaethau penodol rhwng ardaloedd wrth gyflwyno'r rhaglen</i></li> <li><i>Mae sawl newid cyd-destunol wedi digwydd yn</i></li> </ul> |

|                     |   |   |
|---------------------|---|---|
|                     |   | <p><i>ystod oes y rhaglen:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Cyflwyno Plentyn Iach Cymru</i></li> <li>○ <i>Cyflwyno Teuluoedd yn Gyntaf a Cymunedau yn Gyntaf a'u newid</i></li> <li>○ <i>Colli Cymorth</i></li> <li>○ <i>Newid yn y cwrwclwm blynyddoedd cynnar</i></li> <li>○ <i>Newidiadau i hawliau budd-daliadau</i></li> </ul>  |
| <b>Cyson?</b>       | A oes cysondeb yn y ffordd y caiff y Ddamcaniaeth Newid ei disgrifio ar gyfer amryw ddogfennau lluosog prosiect (Dylunio, cynlluniau monitro a gwerthuso, cynlluniau gwaith, adroddiadau cynnydd, ac ati) | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae dealltwriaeth eang o'r rhaglen yn gyson, gyda'r pwyslais ar ddatblygiad a lles plant</li> <li>• Mae gan elfennau penodol o raglen Dechrau'n Deg Ddamcaniaethau Newid manwl a rhesymeg sylfaenol, fel y cyrsiau rhianta seiliedig ar dystiolaeth</li> </ul>   |
|                     |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Ni chafodd Damcaniaeth Newid gyffredinol ei llunio ar y cam sefydlu, datblygu prosiect na gweithredu</i></li> <li>• <i>Cafodd Dechrau'n Deg ei chreu fel rhaglen beilot i ddechrau, ond yn dilyn ei llwyddiant cynnar canfyddedig cafodd ei chyflwyno'n eang a'i chynnal</i></li> <li>• <i>Cafwyd cyfnod 'ymsefydlu' lle nad oedd y rhaglen ar waith ymhob ardal am ryw ddwy flynedd ar ôl ei gweithredu.</i></li> <li>• <i>Mae ymyriadau penodol wedi newid o ganlyniad i argymhellion gwerthuso, fel symud o laith a Chwarae i Leferydd, laith a Chyfathrebu</i></li> </ul>   |
| <b>Cymhlethdod?</b> | A ddisgwylir cryn dipyn o ryngweithio rhwng gwahanol elfennau prosiect? [priodoli achosion a nodi effeithiau cymhlethol] Pa mor ddiffiniedig mae'r rhyngweithio disgwylidig?                              | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae Dechrau'n Deg yn ymyriad hynod gymhleth sydd â chysylltiadau pendant rhwng y gwahanol hawliau, sy'n debygol o achosi rhyngweithio rhyngddynt e.e. mae'n bosibl bod effeithiolrwydd yr hawl i ofal plant yn dibynnu ar ddiwallu anghenion ehangach teulu gan ymwelwyr ieuchyd</i></li> <li>• <i>Ni wyddys beth yw effaith y rhyngweithio hyn, ac mae'n debygol bod natur gyfannol bwrpasol y rhaglen yn arwain at wahanol ddefnydd o bob hawl a gwahanol effaith ar bob teulu, ac felly bydd y rhyngweithio'n wahanol ac yn anhysbys</i></li> <li>• <i>Mae ymwneud teuluoedd â Dechrau'n Deg yn debygol o gynyddu'r tebygolrwydd y cânt eu cyfeirio at wasanaethau arbenigol eraill ac y cânt gymorth i hawlio budd-daliadau a gwasanaethau ychwanegol, fel cymorth tai ac ati.</i></li> </ul> |

|   |   |   |
|---|---|---|
| <p><b>Cytundeb?</b></p>                               | <p>I ba raddau y mae gan wahanol randdeiliaid wahanol farn am amcanion y prosiect a sut y cânt eu cyflawni? Pa mor amlwg yw barn rhanddeiliaid y gellir disgwyl iddynt arddel barn wahanol?</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae barn rhanddeiliaid a chyrrff cyflawni am brif nodau Dechrau'n Deg yn gyson</li> <li>• Mae gan Awdurdodau Lleol dargedau clir am gyflawni.</li> <li>• Ceir cryn dipyn o berchenogaeth ymhlith rhanddeiliaid, a chafodd y rhaglen (ac elfennau o'r rhaglen) eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid</li> </ul> <p><i>• Mae'r ffordd y dehonglir canllawiau Dechrau'n Deg, argaeledd gwasanaethau ac anghenion teuluoedd yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol, ac felly bydd y modd y cyflwynir y rhaglen yn amrywio hefyd</i></p>  |
| <p><b>2. Argaeledd gwybodaeth</b></p>                 |   |   |
| <p><b>A oes set gyflawn o ddogfennau ar gael?</b></p> | <p>...yn berthynol i'r hyn y gellid ei ddisgwyl? E.e. Cynnig prosiect, Adroddiadau Cynnydd, Gwerthusiadau / asesiadau effaith, Astudiaethau a gomisiynwyd</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennaeth lawn ar gael ers ehangu Dechrau'n Deg, e.e. adroddiadau gwerthuso, ffurflenni monitro</li> <li>• <i>Dogfennaeth gynnar am sefydlu a datblygu'r prosiect ddim ar gael, o bosibl am fod newidiadau rheoli cofnodion a TG</i> <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ <i>Nid yw dogfennaeth gynnar yn debygol o fod yn berthnasol i'r rhaglen gyfredol oherwydd y newidiadau rhwng y cynlluniau gwreiddiol a darpariaeth gyfredol</i></li> </ul> </li> </ul>   |
| <p><b>A yw mesurau sylfaenol yn bodoli?</b></p>       | <p>Os nad oes data sylfaenol ar gael eto, a oes cynlluniau penodol o ran pryd y byddai data sylfaenol yn cael eu casglu a pha mor ymarferol yw'r rhain?</p> <p>Os oes data sylfaenol ar gael ar ffurf data arolwg, a yw'r data crai ar gael, neu dim ond eitemau dethol sy'n berthnasol ar hyn o bryd? A yw'r broses samplu yn glir? A yw offerynnau'r arolwg ar gael?</p> <p>Os yw data sylfaenol ar ffurf ystadegau cenedlaethol neu is-genedlaethol, pa mor ddadgyfunol yw'r data? A oes data cyfres amser ar gael, ar gyfer y blynyddoedd cyn y prosiect?</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceir data gweinyddol ar gyfer plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn gweithredu'r rhaglen <ul style="list-style-type: none"> <li>◦ Mae'r data hyn ar gael ar ffurf unigol (e.e. cyrhaeddiad addysgol) ac ar lefel gronol (e.e. lefelau amddifadedd)</li> </ul> </li> <li>• <i>Prin yw pynciau'r data gweinyddol sydd ar gael ac ni allant feithrin dealltwriaeth lawn o amgylchiadau'r teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg adeg gweithredu'r rhaglen. Hefyd mae ond yn gweithredu fel llinell sylfaen o'r rhai sy'n gymwys i gymryd rhan yn Dechrau'n Deg, nid o reidrwydd y rhai sydd wedi gwneud.</i></li> <li>• <i>Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg o deuluoedd adeg gweithredu'r rhaglen, a byddai'n amhosibl cynnal arolwg ôl-weithredol o'r teuluoedd hyn am nad oes modd eu hadnabod.</i></li> <li>• <i>Mae llinell sylfaen plant sy'n ymuno â'r rhaglen yn amhriodol am eu bod naill ai wedi'u cofnodi drwy enedigaeth neu drwy symud i ardal Dechrau'n Deg</i></li> </ul> |

|   |   |  |
|---|---|--|
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>○ <i>Daw'r rheini sy'n symud i ardal Dechrau'n Deg o amrywiaeth o amgylchiadau, ac felly nid ydynt yn cynrychioli poblogaeth gyson</i></li> </ul>   |
| <b>A oes data ar grŵp rheoli?</b>                     | A yw'n glir sut mae'r grŵp rheoli yn cymharu â grŵp ymyrryd? A yw'r data crai ar gael neu dim ond ystadegau cryno? A oes modd nodi aelodau'r grŵp rheoli a chysylltu â nhw efallai? Pa mor aml y casglwyd data ar statws y grŵp rheoli? | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Y grwpiau cymharu gorau posibl yw'r ardaloedd a gafodd eu cynnwys wrth ehangu'r rhaglen. Ystyrir mai'r ardaloedd hyn yw'r rhai mwyaf difreintiedig nesaf ac felly maent yn debycach i'r ardaloedd gwreiddiol na'r rheini na chânt unrhyw wasanaethau Dechrau'n Deg.</li> </ul>  |
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Gan fod Dechrau'n Deg wedi cael ei gweithredu yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru nid oes ardaloedd (rheoli) cyfatebol yng Nghymru na ledled y DU</i></li> <li>• <i>Nid yw natur y rhaglen yn ffafrio hap-dreial wedi'i reoli, gan fod angen amodau demograffig ardal penodol. Mae'r nifer fechan o'r ardaloedd hyn yn golygu eu bod yn amrywio o ran ansawdd i'r pwynt lle na ellir eu cymharu</i></li> </ul> |
| <b>A gesglir data ar gyfer yr holl ddangosyddion?</b> | A yw'n digwydd yn ddigon aml? A oes cryn dipyn o ddata ar goll? A ddefnyddir y mesurau mewn ffordd ddibynadwy h.y. A yw gwallau mesur yn debygol o fod yn broblem?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Awdurdodau Lleol yn rhoi rhywfaint o ddata cronol i Lywodraeth Cymru ar y defnydd o hawliau, fel nifer yr asesiadau datblygiadol a gwblhawyd, canran y plant sy'n cael gofal plant</li> </ul>   |
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Nid yw'r data cyfunol hyn ar gael drwy gydol oes y rhaglen</i></li> <li>• <i>Ni nodwyd y dangosyddion o'r cychwyn, felly maent wedi cael eu datblygu mewn ymateb i'r data a all gael eu casglu, yn hytrach na'r dull a ffefrir o ddatblygu dangosyddion a threfnu i gasglu data i'w mesur yn eu herbyn.</i></li> </ul>   |
| <b>A oes data critigol ar gael?</b>                   | A ellir nodi'r buddiolwyr bwriadedig a gwirioneddol? A oes cofnod o bwy oedd ynghlwm wrth ba  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceir peth data ar asesiadau datblygiadol plant unigol, ond ni ellir eu cysylltu ag unrhyw ffynhonnell ddata arall sy'n cynnwys y plant a gafodd eu hasesu.</li> </ul>   |



|  |  |   |
|--|--|---|
|  | weithgareddau prosiect a phryd?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata cenedlaethol ar gael ar ba hawliau a ddefnyddiwyd gan unigolion mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Mae rhai Awdurdodau Lleol yn casglu data cywir ar gymryd rhan, ond mae hyn yn anghyson.</i></li> <li>• <i>Ni chaiff y buddiolwyr gwirioneddol eu diffinio'n glir. Y nod yw gwella bywydau plant, ond gall hyn ddigwydd drwy rieni ac aelodau eraill o'r teulu.</i></li> <li>• <i>Gall plant a theuluoedd fod yn fuddiolwyr rhannol, sy'n gwneud defnydd o rai hawliau a/neu am lai na'r cyfnod cymwys llawn.</i></li> </ul>  |
| <b>A oes data anghyfunol ar ryw ar gael?</b>                               | Yn y llinell sylfaen? Ar gyfer yr holl ddangosyddion ar gamau ymyrryd y prosiect?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ceir peth data cyfunol sy'n nodi'r rhywiau, fel ymweliadau iechyd.</li> </ul>  |
|  | Yn y grŵp rheoli? Mewn unrhyw adolygiad canol tymor neu broses?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Mae'r diffyg data yn golygu nad oes unrhyw ddadgyfuno ar lefel unigol</i></li> </ul>  |
| <b>Os cynhaliwyd adolygiadau neu werthusiadau...</b>                       | A yw'r adroddiadau ar gael? A ellir cysylltu â'r awduron? A yw'r data crai ar gael? A yw'r broses samplu yn glir? A yw offerynnau'r arolwg ar gael?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r holl werthusiadau blaenorol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae pob un yn cynnwys manylion yr awduron.</li> <li>• O'r gwerthusiadau hynny a oedd yn cynnwys arolygon, mae'r broses samplu yn glir.</li> <li>• Mae offerynnau'r arolwg ar gael</li> </ul>   |
|  |  | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Nid oes data crai ar gyfer arolygon cyn 2013 ar gael</i></li> </ul>   |
| <b>A all systemau monitro a gwerthuso presennol gyflawni?</b>              | Lle nad oes data ar gael, a all staff a systemau presennol wneud hynny yn y dyfodol? A gaiff cyfrifoldebau, ffynonellau a chyfnodoldebau eu diffinio ac a ydynt yn briodol? A yw'r gyllideb yn ddigonol? | <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Ar hyn o bryd, dim ond data cyfunol lefel Awdurdod Lleol sydd ar gael ar nifer gyfyngedig o feysydd. Nid yw'r data hyn yn addas at y diben ac mae angen eu hadolygu.</i></li> <li>• <i>Mae Awdurdodau Lleol yn gwybod eu bod yn gyfrifol am gasglu data monitro, ond mae prosesau monitro yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol oherwydd yr hyblygrwydd sydd ganddynt wrth ddyrannu adnoddau</i></li> <li>• <i>Nid oes data ar gael ar lefel unigol nac ar gyfer yr holl hawliau y gall plant a'u teuluoedd eu cael.</i></li> <li>• <i>Mae pryderon nad oes digon o adnoddau (o ran staff a chyllideb) i wella systemau monitro.</i></li> </ul> |
| <b>3. Cyd-destun sefydliadol</b>   |  |   |
| <b>Ymarferoldeb</b>  |  |   |
| <b>Argaeledd rhanddeiliaid a pha mor hawdd yw hi i gael gafael arnynt?</b> | A oes risgiau diogelwch ffisegol? A fydd y tywydd yn broblem?<br>A yw staff a rhanddeiliaid allweddol yn debygol o fod   | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ychydig iawn o risgiau diogelwch, os o gwbl, wrth gyfarfod â rhanddeiliaid neu gysylltu â nhw, e.e. Awdurdodau Lleol</li> <li>• Gellir cysylltu â phob rhanddeiliad neu ei gyrraedd yn hawdd</li> </ul>  |

|   |   |   |
|---|---|---|
|   | yn bresennol, neu'n absennol ar wyliau neu secondiad? A ellir dibynnu ar yr argaeledd a nodir?  | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Gall lleoli a nodi derbynwyr Dechrau'n Deg (e.e. rhieni) fod yn fwy anodd ond prin mae angen hyn ar Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Byddai'n rhaid cysylltu â derbynwyr drwy Awdurdodau Lleol.</i></li> </ul>   |
| <b>Adnoddau ar gael i gynnal y gwerthusiad?</b> | Amser sydd ar gael ac ym mha wlad? Amseru o fewn amserlen yr holl weithgareddau eraill? Cyllid ar gael ar gyfer y tîm perthnasol a'r hyd? Pobl sydd â'r sgiliau angenrheidiol ar gael ar y cam hwn?                                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyllid cyfyngedig a neilltuwyd i werthuso Dechrau'n Deg</li> <li>Mae gwerthusiadau blaenorol wedi gwneud argymhellion ac mae'r rhaglen wedi defnyddio'r canfyddiadau i lywio gwaith datblygu polisi ar gyfer ei gyflawni yn y dyfodol</li> </ul>   |
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Cyllid ar gyfer gwerthusiadau yn y dyfodol yn ansicr gan fod blaenoriaethau Gweinidogol yn cael dylanwad mawr ar y cyllidebau</i></li> <li><i>Mae ymgyrch i werthusiadau yn y dyfodol ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes, yn hytrach nag arolygon neu unrhyw broses casglu data benodol. Fodd bynnag, mae dadansoddiad manwl o'r data hyn yn gofyn am arbenigedd technegol nad yw ar gael o bosibl.</i></li> </ul>  |
| <b>A yw'r amseru'n gywir?</b>                   | A oes cyfle i werthusiad gael dylanwad? A yw'r prosiect wedi esgor ar ddigon o brofiad o'i weithredu i allu dysgu gwersi defnyddiol? Os cafodd y gwerthusiad ei gynllunio ymlaen llaw, a yw'r gwerthusiad yn dal i fod yn berthnasol? | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gwerthusiadau blaenorol wedi darparu gwybodaeth ac argymhellion sydd wedi cael eu hystyried o fewn y rhaglen, sy'n dangos bod gwerthusiadau yn gallu cael dylanwad, e.e. hawliau rhianta a LIIC.</li> </ul>  |
|   |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Gall y newidiadau i'r rhaglen wneud y gwersi a ddysgwyd yn llai cymwys oherwydd ni fydd yn glir a yw'r canlyniadau o ganlyniad i fformat blaenorol y rhaglen neu'r newidiadau a gyflwynwyd.</i></li> <li><i>Mae amrywiadau lleol o ran cyflwyno'r rhaglen yn lleihau dylanwad unrhyw ganfyddiadau, oherwydd efallai na fyddant yn gymwys i feysydd eraill.</i></li> </ul>   |
| <b>Gofynion cydgysylltu?</b>                    | Sawl rhoddwr, adran o'r llywodraeth, neu gorff anllywodraethol sydd angen neu sydd am gymryd rhan? Pa fathau o gydgyssylltu sy'n bosibl a/neu'n ofynnol?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhanddeiliaid, fel Awdurdodau Lleol, wedi buddsoddi'n fawr yn y rhaglen, ac maent wedi cymryd rhan mewn gwerthusiadau blaenorol. Felly, gellir disgwyl iddynt gymryd rhan yn y dyfodol.</li> <li>Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad a chyfarwyddyd i Fyrddau Iechyd Lleol.</li> <li>Mater i'r Awdurdodau Lleol yw llawer o'r gofynion cydgysylltu, gan mai nhw sy'n gyfrifol am yr amryw sefydliadau sydd ynghlwm wrth gyflwyno hawliau Dechrau'n Deg.</li> </ul> |



|  |   |  |
|--|---|--|
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Ceir peth tensiwn rhwng rhanddeiliaid o ran eu nodau, fel y rhai rhwng Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Ar hyn o bryd, Awdurdodau Lleol sy'n cael y cyllid ac maent yn comisiynu'r Byrddau Iechyd Lleol, ond mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi mynegi dyhead i gael cyllid yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.</i></li> </ul>  |
| <b>Defnyddioldeb</b>                       |   |  |
| <b>Pwy sydd am gael gwerthusiad?</b>       | A nodwyd y prif ddefnyddwyr yn glir? A allant helpu i ddiffinio'r gwerthusiad? A wnânt gymryd rhan mewn proses werthuso?  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Staff mewnol Llywodraeth Cymru <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r tîm polisi yn ymwneud â gweithgareddau gwerthuso yn rheolaidd ac yn helpu i ddiffinio dulliau gwerthuso</li> </ul> </li> <li>Aelodau'r Cynulliad ac Ysgrifenyddion/Gweinidogion y Cabinet <ul style="list-style-type: none"> <li>Nid ydynt yn cymryd rhan yn y broses werthuso ond nhw sy'n gwneud y penderfyniad terfynol o ran y camau a gymerir ac yn cymeradwyo'r gyllideb.</li> </ul> </li> <li>Awdurdodau Lleol <ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai y byddant yn barod i ddiffinio'r gwerthusiad ac wedi cymryd rhan yn y broses werthuso yn flaenorol.</li> <li>Mae rhai wedi cynnal eu gwerthusiadau lleol eu hunain o'r rhaglen</li> </ul> </li> </ul>              |
| <b>Beth mae rhanddeiliaid am ei wybod?</b> | Pa gwestiynau gwerthuso sydd o ddiddordeb i bwy? A ydynt yn realistig, o ystyried dyluniad y prosiect a'r data sy'n debygol o fod ar gael? A ellir eu blaenoriaethu? Sut mae pobl am weld y canlyniadau'n cael eu defnyddio? A yw hyn yn realistig? | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae staff mewnol Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad ac Ysgrifenyddion/Gweinidogion y Cabinet am wybod: <ul style="list-style-type: none"> <li>Pa effaith a gaiff y rhaglen (yn yr hirdymor a'r byrdymor)</li> <li>A yw'r rhaglen yn cyflawni'r canlyniadau disgwylidig</li> <li>Gwerth am arian</li> <li>A all y rhaglen gael ei gwella neu ei mireinio</li> </ul> </li> <li>Yn ogystal â'r uchod, mae staff mewnol Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol am wybod: <ul style="list-style-type: none"> <li>A yw hawliau penodol yn gweithio?</li> <li>Pa gyfuniadau sydd fwyaf llwyddiannus?</li> <li>Pa hawliau a ddefnyddir? Beth a ddefnyddir llai?</li> <li>Sut mae'r hyn a wneir yn lleol yn cymharu â'r canlyniadau cenedlaethol</li> </ul> </li> </ul> |
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae llawer o'r nodau hyn yn anodd gyda'r data</i></li> </ul>   |

|  |   |  |
|--|---|--|
|  |   | <p><i>sydd ar gael ar hyn o bryd, oherwydd ni wyddys sut mae unigolion o fewn ardaloedd Dechrau'n Deg yn defnyddio hawliau.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae rhai Awdurdodau Lleol yn casglu gwybodaeth fwy cywir a manwl nag eraill, felly mae gwneud cymhariaeth rhwng yr hyn a wneir yn lleol ac yn genedlaethol ond yn debygol o fod yn bosibl yn yr ardaloedd hynny â phroses casglu data fwy datblygedig</i></li> </ul>   |
| <p><b>Pa fath o broses werthuso y mae rhanddeiliaid am ei gweld?</b></p> | <p>Pa ddyluniadau y mae rhanddeiliaid yn dangos diddordeb ynddynt? A allai'r rhain weithio, o ystyried y broses o werthuso'r cwestiynau o ddiddordeb a'r wybodaeth sy'n debygol o fod ar gael, a'r adnoddau sydd ar gael?</p> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ar hyn o bryd, caiff llawer o ddyluniadau gwerthuso eu gwerthfawrogi, ar yr amod eu bod yn ddibynadwy ac yn gallu gwrthsefyll proses graffu. Mae hyn yn cynnwys dyluniadau ansoddol a meintiol.</li> <li>Mae dyluniadau ansoddol yn ymarferol am fod angen llai o ddata ac nad oes angen grwpiau rheoli. Gwerthfawrogi'r dyluniad hwn oherwydd ei allu i ddarparu gwybodaeth gyfoethog am y buddiolwyr ac effeithiau canfyddedig y rhaglen.</li> </ul>  |
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Mae dyluniadau meintiol yn llai ymarferol oherwydd diffyg data, ond maent yn fwy addas i ateb cwestiynau am werth am arian, cyflawni canlyniadau a defnyddio hawliau.</i></li> </ul>   |
| <p><b>Pa faterion moesegol sy'n bodoli?</b></p>                          | <p>A ydynt yn hysbys neu oes modd iddynt fod yn hysbys? A ydynt yn debygol o allu cael eu rheoli? Pa gyfyngiadau fydd iddynt?</p>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae materion moesegol yn creu cyfyngiadau, ond mae'n bosibl eu goresgyn drwy weithdrefn gywir a dilyn canllawiau moesegol a deddfwriaeth diogelu data.</li> </ul>   |
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Ceir nifer o faterion moesegol wrth werthuso Dechrau'n Deg;</i> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Grwpiau agored i niwed – mae llawer o'r buddiolwyr yn blant bach neu'n oedolion agored i niwed, e.e. sy'n dioddef cam-drin domestig.</i></li> <li><i>Trosglwyddo data – mae'r nifer fawr o sefydliadau cyflawni yn golygu bod data sensitif yn cael eu trosglwyddo'n fynych.</i></li> </ul> </li> <li><i>Storio data - er mwyn gwerthuso Dechrau'n Deg bydd angen casglu a storio data y gellir eu nodi</i></li> </ul> |
| <p><b>Beth yw'r risgiau?</b></p>   | <p>A fydd rhanddeiliaid yn gallu rheoli canfyddiadau negyddol? A yw profiadau gwerthuso blaenorol wedi rhagfarnu cyfranogiad tebygol rhanddeiliad?</p>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae rhanddeiliaid wedi ymateb i werthusiadau blaenorol mewn modd adeiladol, ac wedi defnyddio'r dystiolaeth i wneud newidiadau i'r rhaglen.</li> </ul>  |
|  |   | <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Bu gwrthdaro rhwng canfyddiadau'r Awdurdodau Lleol a chanlyniadau gwerthusiadau blaenorol. Mae gan lawer o rhanddeiliaid farn gadarnhaol iawn am y rhaglen a gallant gael eu drysu pan nad yw eu canfyddiadau yn cael eu cadarnhau gan</i></li> </ul>  |

|  |  |   |
|--|--|---|
|  |  | <p><i>ganlyniadau gwerthuso.</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <li><i>Ysgrifenyddion/Gweinidogion y Cabinet y Cynulliad yn wynebu risg o niweidio eu henw da os yw canlyniadau gwerthuso yn negyddol.</i></li> </ul> |
|--|--|---|

- 5.5. Ymhlith y mathau o allbynnau y gellir eu disgwyl o asesiad o werthusadwyedd mae gwerthusadwyedd prosiect ac ymarferoldeb a defnyddioldeb gwerthusiad. O ran yr asesiad hwn o werthusadwyedd Dechrau'n Deg fel prosiect, mae nifer o faterion yn ymwneud â'r wybodaeth sydd ar gael a'r dyluniad sy'n ei gwneud yn anodd cynnal gwerthusiad.
- 5.6. Fodd bynnag, mae rhai agweddau cadarnhaol ar raglen Dechrau'n Deg, yn enwedig y lefel uchel o berchenogaeth ac ymgysylltiad gan randdeiliaid (e.e. cydgysylltwyr Dechrau'n Deg) sydd, y gellir ei ddadlau, yn gwneud y rhaglen yn fwy effeithiol. Hefyd, cafodd rhaglen Dechrau'n Deg ei dylunio a'i seilio ar sail dystiolaeth gref, gyda thystiolaeth yn ategu'r rhaglen sy'n cefnogi'r defnydd o'r gwasanaeth gyda chanlyniadau cadarnhaol i blant. Trafodir rhai o'r prif faterion sy'n cael effaith andwyol ar y gallu i werthuso'r rhaglen isod.
- 5.7. Mae a wnelo un o'r meysydd allweddol yn y rhestr wirio â'r data a'r anallu i gadarnhau pa hawliau Dechrau'n Deg a ddefnyddiwyd ar lefel unigol. Er bod y data sydd ar gael i gadarnhau'r ardaloedd Dechrau'n Deg a'r ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg yn glir ac yn ddiffiniedig<sup>11</sup>, mae'r diffyg data ar lefel unigol yn golygu mai dim ond cadarnhau p'un a yw plant a theuluoedd yn byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg y gallwn ei wneud, nid p'un a ydynt wedi defnyddio unrhyw hawliau Dechrau'n Deg. Mae hyn yn golygu na ellir gwerthuso effeithiau hawliau Dechrau'n Deg ar hyn o bryd heb gasglu mwy o ddata.
- 5.8. Hefyd, nid oes grŵp gwrthffeithiol hawdd ei nodi y gellir cymharu'r grŵp triniaeth ag ef. Cafodd y rhaglen ei chyflwyno i'r rheini yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ac felly nid oes unrhyw unigolion a all gyflawni rôl wrthffeithiol, ac felly nid oes unrhyw grŵp gwrthffeithiol, gan nad oes unrhyw ardaloedd sydd yr un mor ddifreintiedig nas cynhwysir yn y rhaglen.
- 5.9. Yn gysylltiedig â hyn mae'r ffaith y caiff y rheini ag amrywiaeth o anghenion ymyriadau seiliedig ar ardal. Yn yr ardaloedd Dechrau'n Deg, mae'n debygol bod rhai teuluoedd nad oes angen lefel uchel o ymyriad amynt, ac felly ni chaiff y rhaglen fawr o effaith arnynt. Hefyd, bydd rhai sy'n dewis peidio ag ymgysylltu â'r rhaglen. Mae'r ddau grŵp hyn yn lleihau unrhyw effaith a welir wrth gymharu ardaloedd Dechrau'n Deg ag ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg.
- 5.10. Mae'r rhestr wirio hefyd yn llywio ymarferoldeb a defnyddioldeb gwerthusiad. Gellir dod i'r casgliad, gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd, ei bod yn anodd ateb y cwestiwn 'A yw Dechrau'n Deg yn gweithio?', o ystyried natur y rhaglen a'r diffyg data. Gallai cwestiynau mwy defnyddiol gynnwys:
- 'Sut mae hawliau Dechrau'n Deg yn amrywio o ran eu heffaith ar ganlyniadau plant a theuluoedd?'*
  - 'Sut y gall rhaglen Dechrau'n Deg arwain at ganlyniadau buddiol?'*

<sup>11</sup>Ac eithrio'r ardaloedd allgymorth bach.

- 5.11. Fodd bynnag, mae hyd yn oed ateb y rheini yn her, oherwydd ni allwn ddweud pa hawliau y mae plant a theuluoedd wedi'u defnyddio mewn gwirionedd. Mae hyn yn golygu na ellir dweud yn sicr fod canlyniadau gwahanol i deuluoedd o ganlyniad i ddefnyddio hawliau penodol, a hyd yn oed a yw'r canlyniadau ar gyfer teuluoedd yn gysylltiedig â hawliau Dechrau'n Deg o gwbl.

## 6. Dulliau Posibl Presennol

- 6.1 Dros y saith mlynedd diwethaf, cafwyd sawl gwerthusiad sydd wedi ceisio gwerthuso rhaglen Dechrau'n Deg. Nodir y rhain yn Nhabl 2.

| <b>Tabl 2. Crynodeb o ddulliau, manteision a chyfyngiadau pob un o werthusiadau a phrosiectau ymchwil Dechrau'n Deg a noddwyd gan Lywodraeth Cymru</b>   |   |  |
|--|---|--|
| <b>Dulliau</b>   | <b>Manteision</b>   | <b>Cyfyngiadau</b>   |
| <b>Gwerthusiad Ansoddol o Raglen Dechrau'n Deg (2009)</b><br><a href="http://gov.wales/docs/caecd/research/091221-qualitative-evaluation-flying-start-cy.pdf">http://gov.wales/docs/caecd/research/091221-qualitative-evaluation-flying-start-cy.pdf</a>   |   |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid, darparwyr gofal plant, teuluoedd sy'n defnyddio hawliau Dechrau'n Deg a theuluoedd nad ydynt yn eu defnyddio</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu gwybodaeth gyfoethog am brofiadau'r rhai a gyfwelwyd.</li> <li>Tanlinellu problemau a materion nas rhagwelwyd</li> <li>Darparu tystiolaeth o ryngweithio rhwng hawliau</li> </ul>          | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim yn darparu data ystadegol</li> <li>Methu darparu tystiolaeth o effaith</li> <li>Methu cyffredinoli i deuluoedd, darparwyr eraill ac ati</li> <li>Ddim yn darparu gwybodaeth am y defnydd o hawliau rhwng pob defnyddiwr</li> </ul> |
| <b>Gwerthusiad Interim o Dechrau'n Deg (2010)</b><br><a href="http://gov.wales/docs/caecd/research/100715-flying-start-interim-evaluation-cy.pdf">http://gov.wales/docs/caecd/research/100715-flying-start-interim-evaluation-cy.pdf</a>   |   |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Arolwg ar-lein wedi'i gwblhau gan bob Cydgysylltydd Dechrau'n Deg</li> <li>Astudiaethau achos ardal o bartneriaethau Dechrau'n Deg</li> <li>Astudiaethau achos thematig yn ymwneud â hawliau penodol, profiadau defnydd, datblygu'r rhaglen a bodloni disgwyliadau'r rhaglen</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gall arolwg ar-lein roi syniad o ganlyniadau lefel gwasanaeth a'r effeithiau posibl ar deuluoedd</li> <li>Astudiaethau achos yn rhoi gwybodaeth hynod fanwl am feysydd a themâu penodol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim yn darparu data ystadegol</li> <li>Methu darparu tystiolaeth o effaith</li> <li>Methu cyffredinoli i deuluoedd, ardaloedd eraill ac ati</li> <li>Methu dod i gasgliadau am gyflawni canlyniadau disgwyliedig</li> </ul>            |

### Gwerthusiad o Dechrau'n Deg: Arolwg Llinell Sylfaen o Deuluoedd (2011)

<http://gov.wales/docs/caecd/research/111214EvalFlyStart-7-20monthssumcy.pdf>

|   |   |   |
|---|---|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolwg lled-arbrofol wedi'i gynnwys mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb yn y cartref ac arolwg hunangwblhau o deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg</li> <li>• Arolwg tebyg wedi'i roi i deuluoedd mewn ardal er cymhariaeth.</li> <li>• Rhan gyntaf o arolwg arhydol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Grŵp cyfatebol er cymhariaeth wedi'i nodi drwy gyfatebiaeth ystadegol ar gyfer pob mesur a ddynodwyd gan ganlyniad</li> <li>• Rhoi amcangyfrif o effaith gyfartalog triniaeth ar y sawl sy'n cael triniaeth yn erbyn atchweliad a pharu</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ddim yn darparu nac yn gallu darparu gwybodaeth am sut a pham bod teuluoedd yn defnyddio hawliau neu unrhyw ganlyniadau deilliannol</li> <li>• Nid yw'r amcangyfrifon o effaith a gynhyrchir yn gwbl ddiuedd</li> <li>• Gallai'r dull hunangofnodi a ddefnyddiwyd hefyd ddangos tuedd</li> </ul> |
|---|---|---|

### Ymchwil Ansoddol Dechrau'n Deg gyda Theuluoedd ag Anghenion Lefel Uchel (Saesneg yn unig) (2013)

<http://gov.wales/docs/caecd/research/131014-flying-start-qualitative-research-high-need-families-en.pdf>

|   |   |  |
|---|---|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Adroddiad synthesis astudiaethau achos ardal yn nodi sut y cyflwynir hawliau DD fesul ALI – 60 o gyfweiliadau mewn 5 ardal DD</li> <li>• Sampl yn canolbwyntio ar y rheini a ystyrir yn 'angen uchel'</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfweiliadau wedi'u cynnal mewn 5 ALI DD ledled Cymru er mwyn archwilio profiadau mewn gwahanol ardaloedd</li> <li>• Ardaloedd astudiaeth achos wedi'u dewis fel bod cymysgedd o wahanol nodweddion daearyddol, nodweddion demograffig a modelau darparu gwasanaeth</li> <li>• Gellir casglu gwybodaeth gyfoethog drwy astudiaethau achos</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Nid yw'r farn a rennir yn gynrychiolaeth ystadegol o bob teulu DD cymwys</li> <li>• Hunangofnudir effeithiau ac maent yn adlewyrchu'r newidiadau y cred rhieni y maent wedi digwydd, yn hytrach na'r rhai a fesurwyd yn wrthrychol</li> </ul> |
|---|---|--|

### Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad Synthesis Astudiaeth Achos Ardal (Saesneg yn unig) (2013)

<http://gov.wales/docs/caecd/research/131128-national-evaluation-flying-start-area-case-study-synthesis-report-en.pdf>

|  |  |   |
|--|--|---|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhan o gyfres a luniwyd gan SQW ac Ipsos Mori ar gyfer y gwerthusiad cenedlaethol o Dechrau'n Deg</li> <li>• 22 astudiaeth achos manwl o Dechrau'n Deg yn cynnwys cyfweiliadau â mwy na 150 o randdeiliaid.</li> <li>• Adroddiadau ar ganlyniadau canolradd i blant a theuluoedd gan ddefnyddio data</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Astudiaethau achos yn rhoi gwybodaeth hynod fanwl am ardaloedd penodol</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Methu nodi'r effeithiau o Dechrau'n Deg yn unig.</li> <li>• Oherwydd amseriad yr adroddiad, plant dim ond yn cyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen, methu pennu effeithiau tymor hwy</li> <li>• Ychydig iawn o'r plant hŷn a fyddai wedi gallu cael darpariaeth Dechrau'n Deg yn llawn</li> </ul> |
|--|--|---|

|   |   |  |
|---|---|--|
| gweinyddol  |   |  |
| <b>Gwerthusiad Cenedlaethol o Dechrau'n Deg: Adroddiad Effaith (Saesneg yn unig) (2013)</b><br><a href="http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf">http://gov.wales/docs/caecd/research/131205-national-evaluation-flying-start-impact-report-en.pdf</a>  |   |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Ail ran arolwg arhydol, yn cynnwys asesiadau gwybyddol o blant</li> <li>Arolwg yn cael ei ddsbarthu i 2,116 o blant – 1,033 yn DD a 1,083 o grŵp cymharu dethol</li> <li>Dull bwriad i drin yn cael ei ddefnyddio, gan olygu bod teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi cael eu harolygu yn hytrach na'r rheini a oedd yn defnyddio hawliau penodol Dechrau'n Deg.</li> </ul>                                   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Grŵp cyfatebol er cymhariaeth wedi'i nodi drwy gyfatebiaeth ystadegol ar gyfer pob mesur a ddynodwyd gan ganlyniad</li> <li>Astudiaeth yn ddefnyddiol wrth greu darlun eang o ddylanwad y rhaglen</li> </ul>                           | <ul style="list-style-type: none"> <li>Grŵp cymharu ond yn rhoi syniad bras mewn rôl wrthffeithiol</li> <li>Ddim yn darparu nac yn gallu darparu gwybodaeth am sut a pham bod teuluoedd yn defnyddio hawliau neu unrhyw ganlyniadau deilliannol</li> <li>Yn debygol iawn bod amcangyfrifon yn tanamcangyfrif effaith Dechrau'n Deg</li> <li>Diffyg llinell sylfaen yn golygu ei bod yn amhosibl gwybod a yw canlyniadau'n sylweddol wahanol i lefelau cyn ymyrryd</li> </ul> |
| <b>Prosiect Arddangos Cysylltu Data: Dechrau'n Deg (2014)</b><br><a href="http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140131-data-linking-demonstration-project-flying-start-summary-cy.pdf">http://gov.wales/docs/caecd/research/2014/140131-data-linking-demonstration-project-flying-start-summary-cy.pdf</a>  |   |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>Dull arbrofol o nodi plant yn byw mewn cyfeiriadau sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg (FSE) a'r rheini yn yr ardaloedd ail fwyaf difreintiedig (NMD) a gweddill Cymru (RoW)</li> <li>Anelu at ddangos potensial y dull gweithredu, yn hytrach na chynhyrchu canlyniadau cadarn</li> <li>Cysylltu data gweinyddol addysgol ac iechyd â'r cyfeiriadau hyn</li> <li>Cymharu canlyniadau plant FSE, NMD a RoW</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Gallu dangos effaith feintiol ar lefel genedlaethol ar gyfer amrywiaeth o ddangosyddion</li> <li>Dim angen casglu mwy o ddata</li> <li>Defnyddio pob plentyn FSE</li> <li>Gallu olrhain unigolion y tu hwnt i Dechrau'n Deg</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>Methu rhoi gwybodaeth am ba hawliau Dechrau'n Deg a ddefnyddiwyd gan blant FSE</li> <li>Plant FSE yn byw mewn ardaloedd sy'n systematig wahanol i NMD a RoW</li> <li>Dibynnu ar ddata a gasglwyd at ddibenion gweinyddol, h.y. heb ystyried ymchwil</li> </ul>  |
| <b>Ymchwil Ansoddol gyda Theuluoedd Dechrau'n Deg (2016)</b><br><a href="http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160118-qualitative-research-flying-start-families-wave-1-summary-cy.pdf">http://gov.wales/docs/caecd/research/2016/160118-qualitative-research-flying-start-families-wave-1-summary-cy.pdf</a>   |   |  |
| <ul style="list-style-type: none"> <li>216 o gyfweiliadau lled-strwythuredig wyneb yn wyneb gyda theuluoedd mewn 6 ALI</li> </ul>   | <ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu tystiolaeth fanwl er mwyn helpu i ddeall barn rhieni am eu profiadau o</li> </ul>  | <ul style="list-style-type: none"> <li>Ddim yn darparu data ystadegol ddibynadwy</li> <li>Methu darparu tystiolaeth</li> </ul>   |

| dros dair blynedd   | Dechrau'n Deg  | wrthrychol o effaith   |
|---|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> <li>• 18 o gyfweiliadau lled-strwythuredig gyda chydgyssylltwyr Dechrau'n Deg - 3 cyfres o chwe chyfweiliad bob blwyddyn.</li> <li>• Ymchwil ansoddol gyda theuluoedd mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg yn 2016 - 2017</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae'r dull ansoddol yn rhoi cipolwg ar brofiadau teuluoedd o DD a sut mae wedi dylanwadu ar eu bywydau</li> <li>• Ymdrechion i gasglu gwybodaeth am yr hyn a all neu na all ddigwydd heb y rhaglen</li> </ul> | <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dilysrwydd a dibynadwyedd data – dibynadwyedd data hunangofnodedig gan rieni</li> <li>• Priodoli – dehongli i ba raddau y gellir priodoli canlyniadau ac effeithiau canfyddedig teuluoedd i elfennau o'r Rhaglen</li> </ul> |

- 6.2. Cafodd dulliau blaenorol o werthuso Dechrau'n Deg eu dewis oherwydd dyluniad a chyflwyniad Dechrau'n Deg, hynny yw cafodd y gwaith gwerthuso ei gomisiynu / cwblhau ar ôl gweithredu'r rhaglen. Golygodd hyn fod ymdrechion blaenorol i werthuso Dechrau'n Deg wedi wynebu'r problemau a amlinellir yn y rhestr wirio gwerthusadwyedd, gan gynnwys yr anallu i gadarnhau effaith oherwydd diffyg data a diffyg grŵp gwrthffeithiol neu sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys rhai dulliau gwerthuso, fel Hap-dreialon Rheoli.
- 6.3. Mae llawer o'r farn mai Hap-dreialon Rheoli yw'r ffordd fwyaf cadarn o bennu achos am ei fod yn ymwneud â dyrannu'r ymyriad ar hap i grwpiau sydd yr un mor gymwys. Rhydd hyn grwpiau trin ac effaith ac, felly, cyflawnir rôl wrthffeithiol i gymharu grwpiau; y sawl sydd wedi ac sydd heb gael yr ymyriad.
- 6.4. Ni ellir gwneud hyn (nawr nac yn y dyfodol) am fod y rhaglen eisoes wedi cael ei gweithredu, gyda phob ardal gymwys yn cael yr ymyriad a grwpiau rheoli ddim yn cael eu nodi. Heb grwpiau rheoli a nodwyd ymlaen llaw a phroses weithredu ar hap ni ellir cyflawni rôl wrthffeithiol. Hefyd mae angen llinell sylfaen ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn. Mae'r ardaloedd nas cynhwysir yn y rhaglen yn systematig wahanol i'r rhai sydd wedi eu cynnwys.
- 6.5. Heb broses weithredu ar hap, gall gweithredu graddol fod yn opsiwn arall, gan gynnig cyfleoedd dylunio lled-arbrofol. Yn hyn o beth, mae pob plentyn cymwys yn cael yr ymyriad, ond mae rhai yn hwyrach nag eraill. Gwnaed hyn i raddau gyda Dechrau'n Deg, yn sgil ei hehangu yn 2012, ond ni chafodd y rheini yn yr ardaloedd ehangu eu cynnwys wrth gyflwyno'r rhaglen yn wreiddiol am eu bod yn byw mewn ardaloedd a oedd ychydig yn llai difreintiedig, ac felly ni ellir ystyried eu bod yn cyflawni rôl wirioneddol wrthffeithiol.
- 6.6. Yn ogystal â'r dulliau a roddwyd ar waith eisoes a'r rhai nad oeddent yn bosibl, gellid ystyried rhai dulliau gwerthuso eraill yn y dyfodol. Hyd yn hyn mae'r gwerthusiadau wedi defnyddio cyfweiliadau ansoddol, grwpiau ffocws ac astudiaethau achos, arolygon meintiol a dadansoddiad o'r data sydd ar gael, fel y rheini o ffynonellau gweinyddol.
- 6.7. Pan gaiff data eu casglu drwy arolwg neu ffynonellau gweinyddol, gellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau ystadegol posibl i lunio amcangyfrif o'r effaith. Defnyddir dulliau ystadegol er mwyn deall a yw'r gwahaniaethau hyn yn ystadegol wahanol i'r hyn y byddem yn ei ddisgwyl ar hap, h.y. cyfrif am newidiadau ar hap yn y canlyniad dros amser a rhwng grwpiau.

- 6.8. Defnyddiodd Arolwg Llinell Sylfaen o Deuluoedd 2011 ac Adroddiad Effaith 2013 arolwg i gasglu data rhifyddol a ddadansoddwyd yn y ffordd hon. Ar hyn o bryd, arolwg yw'r unig ffordd o fesur effaith yn fanwl, oherwydd gall gasglu gwybodaeth fanwl am gyfranogwyr. Nid yw'r data a gaiff eu casglu ar hyn o bryd ar deuluoedd Dechrau'n Deg yn ddigonol i gynnal dadansoddiad cadarn o effaith hawliau Dechrau'n Deg, dim ond effeithiau byw mewn ardal Dechrau'n Deg.
- 6.9. Caiff nifer o ddulliau ystadegol eu disgrifio isod, gyda'u rhinweddau cymharol a sut maent yn gymwys i Dechrau'n Deg fel y mae ar hyn o bryd.

**a. Dadansoddi gwahaniaethau**

- 6.10. Nod y dull hwn yw pennu effaith drwy gymharu'r newid a welwyd yn y grŵp triniaeth â'r hyn a welwyd mewn grŵp cymharu addas. Mae'r dull hwn yn tybio bod y gwahaniaethau, nad ydynt yn ymwneud â'r ymyriad, rhwng y grwpiau triniaeth a chymharu yn aros yr un peth dros amser. Rhydd hyn amcangyfrif o'r hyn a fyddai wedi digwydd heb ymyrryd. Gall y dull hwn gymharu ardaloedd, ond nid unigolion.
- 6.11. Ni all y dull hwn roi amcangyfrif dibynadwy o effaith Dechrau'n Deg, gan fod y gwahaniaethau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg yn sylweddol, ac felly ni ellir disgwyl i'r gwahaniaethau rhyngddynt aros yn gyson (yn enwedig o ystyried yr amrywiaeth o fentrau eraill gan y Llywodraeth sy'n anelu at gynorthwyo ardaloedd ac aelwydydd difreintiedig). Hefyd, mae'r diffyg llinell sylfaen yn golygu na ellir dweud bod y newid a welir yn y ddwy ardal yn wahanol iawn i lefelau cyn ymyrryd.
- 6.12. Hefyd, er mwyn i'r dull hwn fod yn ddilys, mae angen disgwyl i effaith yr ymyriad ar y grwpiau cymharu fod yr un peth â'r grŵp triniaeth. Gan fod Dechrau'n Deg yn targedu ardaloedd difreintiedig yn benodol, nad yw'n debygol y byddent wedi cael y gwasanaethau a gynigir heb y rhaglen, ni ellir disgwyl i raglen Dechrau'n Deg effeithio ar weddill Cymru yn yr un modd

**b. Dadansoddiad amharhad atchweliad**

- 6.13. Mae'r dull dadansoddi hwn yn gofyn i raglen gynnwys y boblogaeth gyfan ond bod meini prawf cymhwysedd parhaus, h.y. torbwynt ar raddfa, fel oedran neu fynegai amddifadedd. Yna mae'n cymharu canlyniadau'r rheini sy'n gymwys o drwch blewyn (h.y. ychydig o dan y torbwynt) â'r rheini sydd ond ychydig y tu allan i'r meini prawf cymhwysedd. Er enghraifft, petai rhaglen ar gyfer pobl 35 oed ac iau, byddai'n cymharu'r rheini yn y rhaglen sy'n 35 oed â'r rheini a eithriwyd am eu bod yn 36 oed.
- 6.14. Tybir bod y ddau grŵp hyn yn debyg o ran eu nodweddion, ac felly mae unrhyw wahaniaeth rhyngddynt o ran eu canlyniadau o ganlyniad i'r rhaglen. Mae hyn yn creu amcangyfrif gwrthffeithiol drwy gymharu grwpiau tebyg iawn, ond nad ydynt yn union debyg. Gallai'r dull hwn fod yn gymwys i Dechrau'n Deg drwy gymharu canlyniadau ardaloedd a oedd ond wedi'u cynnwys yn y rhaglen o drwch blewyn â'r rheini a oedd ychydig y tu allan iddi.
- 6.15. Fodd bynnag, mae'r dull hwn yn gofyn am dorbwynt clir y gall y ddau grŵp ddeillio ohono. Tra bod Dechrau'n Deg yn seiliedig ar y sgôr MALIC, cafodd ei thargedu hefyd yn seiliedig ar gyfran y plant bach a oedd yn byw yn yr ardal honno. Efallai bod modd cynhyrchu rhai ardaloedd penodol (o fewn y rhaglen a'r tu allan iddi) sy'n debyg iawn, ond mae nifer y plant a gynhwysir yn yr ardaloedd hyn yn debygol o fod yn fach.



6.16. Un opsiwn yw cymharu canlyniadau'r ardaloedd a gafodd eu cynnwys wrth gyflwyno'r rhaglen yn wreiddiol â'r ardaloedd a gafodd eu cynnwys wrth ei hehangu yn 2012. Ystyriwyd mai'r ardaloedd ehangu oedd y 'nesaf mwyaf difreintiedig' ac felly gallent gynrychioli'r grwpiau a oedd yn agos i'r meini prawf cymhwysedd gwreiddiol. Fodd bynnag, gan fod yr ardaloedd hyn bellach wedi eu cynnwys yn y rhaglen, byddai hyn ond yn briodol gan ddefnyddio data sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chasglu data yn y dyfodol, h.y. arolwg.

### c. Technegau paru

- 6.17. Mae technegau paru yn dibynnu ar ddefnyddio data a ddelir ar gyfranogwyr unigol y rhaglen a'r rhai sydd y tu allan i'r rhaglen. Mae'n nodi'r rheini o fewn y rhaglen sydd â nodweddion tebyg i'r rheini y tu allan i'r rhaglen. Tybir, os oes ganddynt nodweddion tebyg, fod unrhyw wahaniaethau yn eu canlyniadau o ganlyniad i'r rhaglen.
- 6.18. Mae paru sgorau tueddfryd yn dechneg sy'n ceisio pennu gallu pob un o'r nodweddion i ragweld y tebygolrwydd y bydd pob plentyn yn y grŵp triniaeth neu reoli. Bydd rhai y tu allan i'r grŵp triniaeth sydd â nodweddion a fyddai'n awgrymu eu bod yn fwy tebygol o gael eu cynnwys na'u hepgor. Er enghraifft, ar gyfer Dechrau'n Deg, defnyddiwyd data MALIC, Cyllid a Thollau EM ac Adran Gwaith a Phensiynau i bennu cymhwysedd, felly tybir bod y rheini mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o dan fwy o anfantais na'r rhai y tu allan i'r ardaloedd hyn. Fodd bynnag, ar lefel aelwyd, bydd rhai sydd yr un mor ddfreintiedig, os nad yn fwy difreintiedig, y tu allan i ardaloedd Dechrau'n Deg na'r tu mewn iddynt. Yr aelwydydd hyn y gellir eu paru a'u cymharu.
- 6.19. Gall y dull hwn ddangos bod gwahaniaeth rhwng grwpiau, ond nid yw'n rhoi unrhyw arwydd o'r hyn sydd wedi achosi'r gwahaniaethau. Tra tybir mai'r rhaglen sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth, mae cryfder y paru yn dibynnu ar gael amrywiaeth o eitemau data ar gyfer pawb sy'n rhan o'r rhaglen a'r un data ar gyfer y rheini y tu allan i'r rhaglen.
- 6.20. Gallai arolwg ar raddfa fawr, sy'n cynnwys teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a'r rheini mewn ardaloedd eraill, gasglu'r data angenrheidiol er mwyn defnyddio'r dull hwn. Defnyddiodd Arolwg Llinell Sylfaen o Deuluoedd 2011 ac Adroddiad Effaith 2013 y dechneg hon. Roedd yr arolwg a gynhaliwyd yn cynnwys tua 3,500 o deuluoedd (yr oedd eu hanner yn gymwys i gael hawliau Dechrau'n Deg) a cheisiwyd paru teuluoedd yn seiliedig ar faint, oedran plentyn, addysg rhieni, tai, statws rhiant unigol a newidynnau cymdeithasol-demograffig eraill. Dylai unrhyw arolygon yn y dyfodol geisio sicrhau bod y teuluoedd mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg mor debyg â phosibl i'r rhai mewn ardaloedd Dechrau'n Deg, er mwyn sicrhau mwy o lwyddiant wrth geisio paru rhwng ardaloedd.
- 6.21. Mae hefyd yn bosibl ceisio defnyddio technegau paru mewn perthynas â data gweinyddol sy'n bodoli eisoes, fel Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Byddai hyn yn gofyn am allu nodi'r plant hynny a gafodd wasanaethau Dechrau'n Deg, ac yna eu paru â'r rhai nad oeddent wedi'u cael. Fodd bynnag, mae dwy broblem gyda hyn:
- a) Mae'r newidynnau paru yn gyfyngedig i'r hyn sydd yn y set ddata weinyddol
  - b) Nid oes digon o ddata i wybod pa blant sydd wedi defnyddio hawliau Dechrau'n Deg (neu a ydynt yn byw mewn ardal Dechrau'n Deg tra yn yr ysgol).

#### **d. Dadansoddiad cyfryngu/cymedroli**

- 6.22. Gall effaith rhaglen newid mewn dwy ffordd bosibl o dan amgylchiadau gwahanol. Y gyntaf yw cyfryngu, sy'n disgrifio sut y gall effaith y rhaglen ar y canlyniad ddigwydd drwy drydydd newidyn, h.y. caiff y rhaglen effaith anuniongyrchol. Er enghraifft, gellir rhagweld y caiff Dechrau'n Deg effaith gadarnhaol ar lythrennedd plant, ond mae hyn yn digwydd drwy wella cydberthnasau rhieni a phlant. Os nad yw'r perthnasau hyn yn gwella, ni cheir unrhyw effaith ar lythrennedd.
- 6.23. Yr ail ffordd yw newid yr effaith drwy gymedroli, lle caiff effaith y rhaglen ar y canlyniad ei newid drwy bresenoldeb/absenoldeb trydydd newidyn. Yn yr achos hwn, caiff Dechrau'n Deg effaith uniongyrchol ar wella llythrennedd, ond os yw perthnasau rhieni a phlant yn dda, yna bydd yr effaith yn gryfach.
- 6.24. Fel rheol, bydd y dadansoddiad hwn yn cynnwys profi ystod eang o berthnasau rhwng newidynnau a cheisio deall o dan ba amgylchiadau y gwelir yr effeithiau ac nas gwelir. Dim ond os oes llawer o ddata ar bob unigolyn y bydd y dadansoddiad hwn yn bosibl, fel bod modd profi'r berthynas rhwng newidynnau. Ar hyn o bryd mae'n bosibl profi'r berthynas rhwng byw mewn ardal Dechrau'n Deg ac amrywiaeth o ganlyniadau. Fodd bynnag, heb ddata lefel unigol, ni ellir profi'r rhyngweithio rhwng defnyddio hawliau Dechrau'n Deg a newidynnau demograffig eraill nac ychwaith y berthynas rhwng gwahanol hawliau Dechrau'n Deg.
- 6.25. O ystyried y dulliau hyn, gellir ateb amryw gwestiynau ymchwil ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys y rheini yr aed i'r afael â nhw eisoes mewn gwerthusiadau blaenorol, a'r rheini nad aed i'r afael â nhw, sy'n eithaf bosibl. Mae llawer o'r rhain eisoes wedi cael eu hystyried fel rhan o werthusiadau blaenorol, ac felly heb newid y rhaglen na'r data a gesglir, dim ond canfyddiadau blaenorol y bydd unrhyw waith gwerthuso yn y dyfodol yn gallu eu dynwared.
- A oes gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wahanol ganlyniadau i'r rhai mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg?
  - A oes gan blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg ar ôl gweithredu'r rhaglen wahanol ganlyniadau i'r rhai yn yr un ardaloedd cyn gweithredu'r rhaglen?
  - A oes gan deuluoedd sy'n byw mewn ardal Dechrau'n Deg ganfyddiadau cadarnhaol o'r rhaglen a'i hawliau, mewn perthynas â phrofiad ac effaith ganfyddedig?
  - Pa hawliau penodol a gaiff yr effaith fwyaf ym mam teuluoedd/rhieni/plant?
  - Pa rwystrau sy'n atal teuluoedd/rhieni/plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg rhag cymryd rhan yn y rhaglen?
  - A yw'r rhanddeiliaid (e.e. Awdurdodau Lleol) o'r farn bod y rhaglen yn cael effaith gadarnhaol?
  - Pa wasanaethau ychwanegol y byddai teuluoedd/rhieni/plant am eu gweld yn cael eu darparu mewn ardaloedd Dechrau'n Deg?
- 6.26. Yn ogystal â'r cwestiynau ymchwil hynny y gellir eu hateb ar hyn o bryd, mae yna gwestiynau y mae'n amhosibl eu hateb ar hyn o bryd heb wneud newidiadau i'r data sydd ar gael, newid y ffordd y cyflwynir y rhaglen neu fuddsoddi mewn arolwg ar raddfa fawr.
- Faint o deuluoedd unigol sy'n defnyddio hawliau Dechrau'n Deg?
  - Faint o ddefnydd o hawliau Dechrau'n Deg sy'n arwain at wahanol ganlyniadau?
  - Beth yw'r rhyngweithio rhwng y gwahanol hawliau Dechrau'n Deg?

- Beth yw canlyniadau teuluoedd/rhieni/plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg nad ydynt yn defnyddio'r hawliau, o gymharu â'r rhai sydd yn eu defnyddio?
- Beth yw effeithiau tymor hwy Dechrau'n Deg? H.y. olrhain y rheini sydd wedi defnyddio hawliau Dechrau'n Deg i fod yn oedolyn.
- Beth yw nodweddion demograffig y rheini sy'n defnyddio hawliau Dechrau'n Deg i raddau mwy neu lai?
- A yw nodweddion unigol gwahanol yn arwain at wahanol ganlyniadau i'r rheini sy'n defnyddio hawliau Dechrau'n Deg? E.e. cymharu dynion a merched sy'n gwneud defnydd tebyg o hawliau.

## 7. Dulliau Gweithredu Posibl yn y Dyfodol

- 7.1. Mae'r rhestr wirio gwerthusadwyedd (adran 5) yn nodi'n glir dair prif her ar gyfer gwerthuso Dechrau'n Deg: diffyg data ar y defnydd o hawliau Dechrau'n Deg penodol ar lefel unigol, diffyg cyflawni gwrthffeithiol a seiliedig ar ardal, gan gynnwys gwahaniaethau yn nulliau cyflawni ardaloedd. Heb wneud newidiadau sylweddol i'r rhaglen neu fonitro a chasglu data, ni ellir gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r problemau a nodir gan y ddwy her olaf. Fodd bynnag, gellir dechrau casglu data ychwanegol er mwyn cefnogi gwerthusiad mwy cadarn.
- 7.2. Er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau am effaith hawliau Dechrau'n Deg penodol, mae angen gwybod i ba raddau y defnyddir hawliau Dechrau'n Deg ar lefel unigol. Yn ddelfrydol, byddai'r data hyn yn cynnwys yr holl hawliau y mae'r teuluoedd/rhieni/plant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg wedi eu defnyddio. Byddai hefyd yn cynnwys nifer o newidynnau demograffig, fel oedran, maint y teulu, ethnigrwydd, rhyw'r plant, statws cyflogaeth a chymwysterau'r rhieni maint yr aelwyd.
- 7.3. Byddai'r data hyn yn cael eu gweld drwy allu eu cysylltu â setiau data eraill a gasglwyd gan wasanaethau eraill. Er enghraifft, byddai cysylltu'r data â'r hyn a gasglwyd gan ysgolion yn golygu y gellid cynnal dadansoddiad manwl o b'un a yw hawliau Dechrau'n Deg yn arwain at well canlyniadau addysgol ac, os felly, ba hawliau penodol a gaiff yr effaith fwyaf.
- 7.4. Byddai hefyd yn ddefnyddiol casglu gwybodaeth i bennu'r defnydd o ymyriadau eraill y mae'r teulu/rhieni/plant wedi eu cael, fel Cymunedau yn Gyntaf neu Teuluoedd yn Gyntaf. Byddai hyn yn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o b'un a yw hawliau Dechrau'n Deg ar eu pen eu hunain yn gyfrifol am unrhyw effeithiau/newidiadau a welwyd neu a yw newidiadau yn fwy tebygol o gael eu gweld lle cafwyd ymyriadau eraill yn ychwanegol at Dechrau'n Deg.
- 7.5. Byddai'r data ychwanegol hyn yn fodd i gynnal dadansoddiad ystadegol i raddau llawer mwy. Byddai modd edrych ar gymariaethau ar sail yr hawliau gwirioneddol a ddefnyddiwyd gan blant, yn hytrach na chymharu ar lefel ardal, ar gyfer pob plentyn sy'n gymwys i fod yn rhan o'r rhaglen. Mae a wnelo hyn â nodau Dechrau'n Deg yn fwy cywir, gan fod y rhaglen wedi'i chreu i ddarparu cymorth cyfannol wedi'i deilwra i deuluoedd mewn ardaloedd Dechrau'n Deg. Y broblem gyda chymariaethau seiliedig ar ardal yw bod amrywiaeth o ddefnydd ac angen mewn ardal sy'n arwain at wanhau'r effaith. Ni fyddai hyn yn broblem os byddai'r defnydd gwirioneddol yn hysbys.

- 7.6. Tra byddai data unigol yn fodd i ofyn amrywiaeth o gwestiynau ymchwil ychwanegol, ni fyddai'r broses o'u casglu yn syml. Mae'n dra thebygol y byddai angen cryn adnoddau gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Problem arall gyda defnyddio'r data hyn at ddibenion gwerthuso yw'r ffaith nad oes grŵp cymharu o hyd. Tra byddai'n ddefnyddiol cael data ychwanegol ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn rhaglen Dechrau'n Deg, bydd angen eitemau tebyg o ddata gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg. I gael cymhariaeth gywir, bydd angen casglu'r un eitemau ar gyfer teuluoedd/rhieni/plant Dechrau'n Deg a sampl nad ydynt yn rhan o Dechrau'n Deg.
- 7.7. Mae dwy ffordd bosibl o gasglu'r data hyn: arolwg o gyfranogwyr neu ddatblygu system casglu data newydd ar gyfer pawb sy'n cymryd rhan yn y rhaglen. Tra defnyddiwyd arolwg sampl mewn gwerthusiadau blaenorol (fel Adroddiad Effaith 2013), mae'n werth ei ystyried o hyd ar gyfer unrhyw werthusiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid ei gymharu â dewisiadau amgen er mwyn pennu'r dull mwyaf priodol.

## 1. Arolwg Sampl

### Enillion

- Deall y defnydd o Dechrau'n Deg ar lefel genedlaethol
- Cipolwg ar nifer y defnyddwyr ar gyfer pob hawl
- Potensial i bennu'r rhyngweithio rhwng hawliau gyda sampl ddigon mawr
- Gallai arolwg arhydol olrhain datblygiad a chanlyniadau dros amser
- Arolwg trawsadrannol yn gallu cymharu canlyniadau ar gyfer grwpiau ar wahanol gamau o'r rhaglen
- Casglu data untro nad yw'n gofyn am gostau parhaus

### Risgiau

- Angen sampl ddigon mawr i ddarparu dadansoddiad dibynadwy
- Angen nodi grŵp cymharu addas
- Angen ei ailadrodd er mwyn asesu carfannau newydd, gwahanol neu yn y dyfodol
- Cyfradd ymateb wael a/neu athreulid cyfranogwyr gwael<sup>12</sup> (os yw'n arhydol)
- Tuedd ymateb bosibl gan y rhai sydd fwyaf parod i gymryd rhan mewn ardaloedd Dechrau'n Deg

### Goblygiadau Adnoddau

- Cost uchel am arolwg ar raddfa fawr, a all gynrychioli cyfran sylweddol o gyfanswm cyllideb Dechrau'n Deg
- Angen i staff reoli a goruchwylio'r arolwg a/neu reoli'r contractwr
- Proses hirfaith o ddatblygu'r arolwg i gasglu'r canlyniadau

---

<sup>12</sup> Mae arolygon arhydol yn ceisio arolygu'r un cyfranogwyr dros gyfnod o amser, dros sawl blwyddyn yn aml. Fodd bynnag, gall rhai o'r rhain ddewis gadael yr ymchwil cyn i'r arolwg ddod i ben. Y gyfradd athreulio yw cyfran y cyfranogwyr nad ydynt yn cwblhau'r arolwg cyfan.

## 2. Casglu data ar lefel unigol

### Enillion

- Data manwl ar y defnydd o hawliau Dechrau'n Deg
- Gwybodaeth gyfredol a pharhaus am yr union nifer o ddefnyddwyr ar gyfer pob hawl
- Gallu pennu'r rhyngweithio rhwng hawliau
- Set ddata fawr yn golygu y gellir cynnal dadansoddiad cadarn o'r holl blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Modd cysylltu â setiau data eraill, fel Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion, a fyddai'n golygu y gellir dadansoddi canlyniadau ehangach
- Gallu olrhain cyfranogwyr Dechrau'n Deg drwy'r rhaglen a chymharu'r rheini sydd ar gamau gwahanol ohoni
- Gallu asesu effeithiau posibl Dechrau'n Deg ar sail unigol

### Risgiau

- Diogelu Data a sensitifrwydd yr eitemau a gesglir. Byddai angen cael caniatâd i rannu'r data
- Angen ystyried a datblygu adnoddau rheoli a storio data
- Byddai angen i'r broses gasglu fod yn gyson rhwng Awdurdodau Lleol
- Dilysrwydd y data ac ymarferoldeb y broses gasglu wirioneddol
- Data yn cael eu casglu gan unigolion nad ydynt yn ymchwilwyr, gan arwain at duedd systematig o bosibl
- Efallai na fydd gan rai ardaloedd lleol y systemau sydd eu hangen i gasglu data lefel unigol, yn y byrdymor o leiaf.

### Goblygiadau Adnoddau

- Efallai y bydd angen datblygu systemau rheoli data gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol, yn debyg o fod gan gontractwr trydydd parti a allai fod am gost uchel
- Staff â sgiliau arbenigol i reoli'r broses gasglu yn lleol ac yn ganolog
- Byddai angen rheoli'r broses casglu data am oes rhaglen Dechrau'n Deg, h.y. ymrwymiad hirdymor o ran adnoddau
- Amser i gasglu a pharu'r data yn yr Awdurdodau Lleol

7.8. Felly, gall fod yn her rhoi'r systemau angenrheidiol ar waith wrth gasglu data unigol, ac efallai na wnaiff arolwg sampl roi'r data angenrheidiol. Fodd bynnag, mae cryn enillion i'w gwneud a risgiau os na chesglir y data o hyd. Mae Dechrau'n Deg yn fuddsoddiad mawr a heb wybod union effaith y rhaglen, nid oes modd gwybod a yw Dechrau'n Deg yn rhoi gwerth da am arian ai peidio. Er mwyn pennu'r gwelliannau posibl y gellid eu gwneud, mae angen meithrin dealltwriaeth lawn o effeithiau'r hawliau drwy gasglu data lefel unigol.

## 8. Casgliadau

8.1. Nod yr adroddiad hwn oedd pennu:

- A yw'n debygol y gwelir unrhyw effeithiau
- A yw'n ymarferol mesur effeithiau
- A fyddai'n ddefnyddiol asesu effaith

8.2. Mae dulliau blaenorol o werthuso Dechrau'n Deg wedi cael eu cyfyngu gan ddyluniad a chyflwyniad y rhaglen, hynny yw cafodd y gwaith gwerthuso ei gomisiynu ar ôl gweithredu'r rhaglen. Ni fu modd i werthusiadau blaenorol bennu effaith rhaglen Dechrau'n Deg oherwydd cyfyngiadau data a dyluniad y rhaglen.

8.3. Mae'r data sydd ar gael ar hyn o bryd ond yn ein galluogi i ddadansoddi'r rheini sy'n gymwys i gymryd rhan yn Dechrau'n Deg, yn hytrach na'r rhai sy'n ei defnyddio. Hefyd, nid oes grŵp o deuluoedd y gellir ei ddefnyddio mewn rôl wrthffeithiol i'w gymharu â'r rheini sydd wedi defnyddio rhaglen Dechrau'n Deg, gan fod y rhaglen wedi cael ei chyflwyno yn y rhannau mwyaf difreintiedig o Gymru, lle nad oes ardal gyfatebol i gyflawni rôl wrthffeithiol.

8.4. Cafodd y rhaglen ei datblygu (ac mae'n parhau i gael ei haddasu) yn unol â'r dystiolaeth orau sydd ar gael, sy'n awgrymu ei bod yn gredadwy disgwyl effeithiau buddiol i blant. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth ddylai'r effeithiau hyn fod o reidrwydd, am nad oes data ar gael ar y rheini sy'n defnyddio hawliau Dechrau'n Deg. Felly, mae'n anodd mesur effeithiau. Mae angen casglu mwy o ddata, naill ai drwy arolwg neu drwy wella data monitro. Er mwyn i werthusiad o'r canlyniadau fod yn ddefnyddiol, bydd angen iddo allu nodi pa hawliau a ddefnyddiwyd gan y teulu/rhieni/plant, a beth yw canlyniadau hyn. Ar hyn o bryd, ni cheir digon o ddata cywir i bennu hyn.

8.5. Ni ellir goresgyn diffyg grŵp gwrthffeithiol mor hawdd, am fod Dechrau'n Deg wedi cael ei gweithredu yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gan olygu bod unrhyw ardaloedd posibl er cymhariaeth yn gynhenid wahanol i ryw raddau. Fodd bynnag, dylai casglu data ychwanegol ar gyfer ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg olygu bod grwpiau cymharu mwy manwl a chywir ar gael.

8.6. I grynhoi, gall rhai canlyniadau gael eu pennu nawr, ond maent yn gyfyngedig:

- Mae modd dod i gasgliadau am y canlynol:
  - Agweddau a chanfyddiadau rhieni a rhanddeiliaid am raglen Dechrau'n Deg a'i hawliau
  - Y gwahaniaethau yn rhai o'r pethau y bwriedir i Dechrau'n Deg ddylanwadu arnynt, i blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o gymharu ag ardaloedd eraill
  - Y newidiadau yn rhai o'r pethau y bwriedir i Dechrau'n Deg ddylanwadu arnynt, i blant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg cyn ac ar ôl ei gweithredu
- Nid oes modd asesu'r canlynol ar hyn o bryd:
  - Effaith hawliau Dechrau'n Deg ar ddatblygiad hirdymor plant
  - Effaith benodol hawliau Dechrau'n Deg, neu eu rhyngweithio â'i gilydd
  - Y defnydd gwirioneddol o hawliau gan deuluoedd unigol, a grwpiau sy'n gwneud defnydd uwch ohonynt

## Argymhellion

8.7. Mae'r adroddiad hwn yn gwneud yr argymhellion canlynol o ran unrhyw werthusiadau o'r rhaglen ar ei ffurf bresennol yn y dyfodol:

- Cymharu canlyniadau rhwng ardaloedd Dechrau'n Deg ac ardaloedd nad ydynt yn rhai Dechrau'n Deg gan ddefnyddio cyfatebiaeth ystadegol ar gyfer grwpiau o blant ym mhob ardal sydd â nodweddion tebyg
- Parhau i ddefnyddio ymchwil ansoddol er mwyn deall canfyddiadau teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Ystyried opsiynau o ran cysylltu data, gan ddefnyddio data gweinyddol i, o bosibl, nodi canlyniadau lefel unigol ar gyfer plant sy'n byw mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Nodi sampl o deuluoedd/rhieni/plant sydd wedi cael hawliau Dechrau'n Deg a'u holrhain yn arhydol

Y gwelliannau posibl i'r rhaglen a allai arwain at werthusiadau mwy cadarn:

- Datblygu systemau newydd ar gyfer casglu data lefel unigol ar hawliau Dechrau'n Deg, a allai gynnwys gwaith monitro ychwanegol a/neu arolwg ar raddfa fawr
- Cysylltu data lefel unigol â data a gesglir gan wasanaethau eraill, fel data addysgol ysgolion
- Nodi lle mae teuluoedd/rhieni/plant yn cael gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol, a chysylltu hyn â'r data lefel unigol o Dechrau'n Deg.

Petai'r gwelliannau hyn yn cael eu gwneud, gallai fod modd cynnal y gweithgareddau canlynol:

- Defnyddio cyfatebiaeth ystadegol, ond ar lefel unigol er mwyn pennu effeithiau hawliau Dechrau'n Deg penodol.
- Dadansoddi'r data lefel unigol er mwyn profi a yw nodweddion unigol, neu ffactorau cyd-destunol ehangach, yn effeithio ar gymryd rhan ac effaith gwasanaethau.
- Defnyddio data lefel unigol i ddewis samplau ar gyfer ymchwil ansoddol bellach a/neu arolygon, astudiaethau achos ac ymchwil arhydol fanylach.
- Nodi a yw gwasanaethau neu ymyriadau ychwanegol (heblaw am Dechrau'n Deg) yn cael effaith ychwanegol ar y rheini mewn ardaloedd Dechrau'n Deg.